



Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Craffu ar Gyfrifon 2015-16

Rhagfyr 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilo**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddArchwilo@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilo**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
# **Craffu ar Gyfrifon 2015-16**

Rhagfyr 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 22 Mehefin 2016 i gyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 18.2 and 18.3 ac ystyried unrhyw fater arall yn ymwneud â pha mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y cafodd adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus yng Nghymru.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor:**



**Nick Ramsay AC(Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Monmouth



**Mohammad Asghar AC**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Neil Hamilton AC**
UKIP Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Mike Hedges AC**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Neil McEvoy AC**
Plaid Cymru
Canol De Cymru



**Rhianon Passmore AC**
Llafur Cymru
Islwyn



**Lee Waters AC**
Llafur Cymru
Llanelli

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



**Rhun ap Iorwerth AC**
Plaid Cymru
Ynys Môn

# Cynnwys

Argymhellion ........ 5
01. Cyflwyniad ........ 7
02. Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ........ 10
03. Gyrfa Cymru ........ 15
04. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ........ 22
05. Estyn ........ 26
06. Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru ........ 32
Atodiad - Tystion ........ 40

.

# Rhagair y Cadeirydd

Dyma adroddiad cyntaf y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn y Pumed Cynulliad. Mae Craffu ar Gyfrifon yn ddarn o waith hollbwysig i'r Pwyllgor, gyda'r cryfder yn dod o natur reolaidd y gwaith, sy'n darparu 'ffactor ataliol' sy'n cyfrannu at wella rheolaeth ariannol a'r dull o lywodraethu cyrff cyhoeddus pwysig.

Mae'r broses o graffu ar gyfrifon yn flynyddol gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus wedi cyflwyno nifer o welliannau o ran argaeledd a safon yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae ein dull o ystyried adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus eraill yn thematig wedi rhoi'r cyfle i ni archwilio'r ffyrdd gwahanol y mae sefydliadau wedi cyflwyno eu cyfrifon. Rydym yn gobeithio y bydd ein proses flynyddol o graffu ar adroddiadau blynyddol a chyfrifon yn cael effaith 'ataliol' i sicrhau bod sefydliadau sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus yng Nghymru yn teimlo pwysau ar bob lefel i sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Gobeithiwn y bydd ein gwaith yn sicrhau bod y sefydliadau nad ydynt yn gwneud hynny yn gallu cael eu dwyn i gyfrif er mwyn i ni graffu arnynt yn gyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys nifer o argymhellion y mae rhai ohonynt wedi'u hanelu at wella'r wybodaeth a geir o fewn adroddiadau blynyddol a chyfrifon cyrff cyhoeddus ac mae hefyd yn amlygu nifer o feysydd y byddwn yn dychwelyd atynt mewn blynyddoedd dilynol.

Hoffwn ddiolch i bawb a roddodd dystiolaeth i'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Yn arbennig, dymunaf ddiolch yn bersonol ac ar ran y Pwyllgor i Claire Clancy, Prif Weithredwr Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Syr Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru sydd wedi ymddangos gerbron y pwyllgor hwn a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol ar sawl achlysur, a bydd y ddau ohonynt yn gadael eu swyddi yn y dyfodol agos.

Nick Ramsay AC

# Argymhellion


**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn gweithio i gyflwyno'r wybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon mewn dull mor syml â phosibl. Wrth wneud hyn dylid ystyried defnyddio diagramau a ffeithluniau i wneud gwybodaeth allweddol mor ddarllenadwy â phosibl. ....................Tudalen 8

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn dosbarthu canllawiau arfer gorau ar adrodd ar salwch. Dylai'r canllawiau nodi'r mathau o ddata cymharol y dylid eu defnyddio a dylid defnyddio'r ffigurau CIPD diweddaraf er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei chasglu gan bob sefydliad. ....................Tudalen 9

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid i gasglu mewnbwn ar wella tryloywder a hygyrchedd ei ddogfennaeth gyfrifyddu. ....................Tudalen 16

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gyrfa Cymru i ddatblygu a gweithredu ei weledigaeth strategol. ............Tudalen 17

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i egluro'r safonau penodol y mae'n ofynnol i Gyrfa Cymru gydymffurfio â hwy. ....................Tudalen 18

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cynnwys yr angen am ddarpariaeth Gymraeg briodol ledled Cymru yn ei brosesau meithrin gallu ac yn ystyried sut y gall ddiwallu anghenion y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg. ....................Tudalen 18

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn datblygu ei wefan i'w gwneud yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud y gwaith hwn, dylid sicrhau ei bod yn gyson â thechnoleg symudol, ac y gellir ei llywio'n hawdd. Hoffem weld gwelliannau i'r wefan yn ystod y 12 mis nesaf, a'r gwaith cyfan wedi'i gwblhau o fewn dwy flynedd. ....................Tudalen 19

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cyhoeddi ei ddata absenoldeb oherwydd salwch yn ei adroddiad blynyddol er mwyn gwella tryloywder. ....................Tudalen 20

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i asesu a fyddai uno cronfeydd pensiwn Gyrfa Cymru yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a gwerth am arian ar gyfer y dyfodol. ....................................................................................................................Tudalen 21

**Argymhelliad 10.** Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac adeiladu ar y gwaith cadarnhaol hyd yma, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o'r wybodaeth a geir o fewn y cyfrifon cyfunol er mwyn sicrhau ei bod yn dweud wrth bobl yr hyn sydd angen iddynt ei wybod a'r hyn y maent am ei wybod. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y gwariant yn erbyn y gyllideb ym mhob un o'r prif grwpiau gwariant. .........................................Tudalen 33

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei threfniadau goruchwylio ar gyfer cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ond sy'n cael eu gweinyddu gan sefydliadau allanol, i sicrhau bod camau diogelu ar waith i atal twill. .........................................................Tudalen 35

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf ar fanylion y trefniadau a roddwyd ar waith i gryfhau'r system o ran gweinyddu taliadau teithio rhatach. ....................................................................................................................Tudalen 35

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am ganran y caffael gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael ei ddyfarnu i gwmnïau o Gymru. ...........................Tudalen 36

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol nesaf yn ystyried a yw'r strwythur uwch reoli a'r fframwaith sicrwydd presennol yn ddigon cadarn yn enwedig o ran atebolrwydd a goruchwylio'r broses o ddarparu polisïau. ..........................................................................................................Tudalen 37

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Tasglu Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd o enghreifftiau o arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch. ......Tudalen 38

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gwael a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod y broses o reoli perfformiad yn cael ei rheoli'n gadarn. ...................................................................................................................Tudalen 38

# 01. Cyflwyniad

**1.** Yn ystod y Pedwerydd Cynulliad, cyflwynodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar y pryd yr arfer o graffu'n flynyddol ar nifer o gyrff sy'n cael eu hariannu'n gyhoeddus ar ôl iddynt gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon ac argymhellwyd bod yr arfer hwn yn parhau. Ar ddechrau'r Pumed Cynulliad, cytunodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y Pwyllgor) fod hwn yn faes gwaith pwysig ac roedd yn awyddus i barhau i sicrhau dull digonol o graffu ar y ffordd y caiff arian cyhoeddus ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a nifer o gyrff cyhoeddus ar wahân.

**2.** Comisiwn y Cynulliad yw'r corff corfforaethol sy'n darparu'r cymorth ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, ac fe'i ariennir gan Grant Bloc Cymru, y pleidleisiwyd drosto gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**3.** Llywodraeth Cymru sydd â'r gyllideb fwyaf o blith y cyfrifon y mae'r Pwyllgor yn craffu arnynt. Caiff ei chyllideb o dros £15 biliwn ei chymeradwyo'n flynyddol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

**4.** Yn ogystal â chraffu'n flynyddol ar adroddiad blynyddol a chyfrifon Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, cytunwyd i ystyried sefydliadau gwahanol yn thematig bob blwyddyn er mwyn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i bob rhan o'r sector cyhoeddus yn ystod y Pumed Cynulliad.

**5.** Ar gyfer y cyfnod 2015-16, yn ogystal â Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad, dewisodd y Pwyllgor thema addysg ac ystyriodd adroddiad blynyddol a chyfrifon Gyrfa Cymru, Estyn a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

**6.** Caiff canfyddiadau'r Pwyllgor sy'n deillio o'i waith craffu ar bob sefydliad eu nodi yn yr adroddiad hwn.

## Themâu allweddol

**7.** Drwy gydol yr ymchwiliad hwn, roedd nifer o themâu a oedd yn codi ym mhob un o'r sesiynau tystiolaeth:

- Gofynion y Trysorlys ar gyfer fformat adroddiadau blynyddol a chyfrifon;
- Toriadau yn y gyllideb a'r effaith ar gynllunio ariannol; a
- Materion staffio

### Gofynion y Trysorlys

**8.** Lansiodd Trysorlys EM y prosiect 'Simplifying and Streamlining Accounts' ym mis Ebrill 2013 gyda'r nod o symleiddio'r broses o gyflwyno'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon statudol a gynhyrchir gan sefydliadau llywodraeth ganolog er mwyn iddynt ddiwallu anghenion defnyddwyr yn well.[1] Roedd y prosiect hwn yn cynnig dull gweithredu a oedd yn seiliedig ar dri gofyniad adrodd integredig:

- Perfformiad – "adrodd y stori";
- Atebolrwydd; a

[1] Simplifying and streamlining statutory annual report and accounts, Trysorlys EM, Ebrill 2013

– Datganiadau ariannol.[2]

**9.** Mae'r gofynion hyn gan y Trysorlys, a ystyriwyd gan y Pwyllgor, mewn llawer o achosion wedi cynyddu swm a'r manylder y wybodaeth y mae'n ofynnol ei chynnwys yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar dryloywder. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn, ac ar ôl deall a gweithredu'r gofynion hyn, cred mai'r her i sefydliadau yn awr yw mireinio'r fformat i wneud yr adroddiadau blynyddol a'r cyfrifon mor hygyrch â phosibl. Rydym yn hoffi dull Comisiwn y Cynulliad o gynhyrchu dogfen gryno, sy'n gwneud y wybodaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

**10.** Rydym wedi gwneud rhai sylwadau mwy penodol ar ddogfennau adroddiadau blynyddol a chyfrifon y sefydliadau y craffwyd arnynt, lle y bo'n bosibl, yng nghorff yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gan fod y gofynion adrodd newydd yn berthnasol ar draws y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus, cred y Pwyllgor ei bod yn fuddiol i bob sefydliad edrych ar eu dull o gyflwyno dogfennau. Byddai hyn yn unol â'r nod o geisio gwella hygyrchedd.

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod sefydliadau ar draws y sector cyhoeddus yn gweithio i gyflwyno'r wybodaeth yn eu hadroddiad blynyddol a'u cyfrifon mewn dull mor syml â phosibl. Wrth wneud hyn dylid ystyried defnyddio diagramau a ffeithluniau i wneud gwybodaeth allweddol mor ddarllenadwy â phosibl.

### Toriadau yn y gyllideb a'r effaith ar gynllunio ariannol

**11.** Amlygodd adroddiad blynyddol a chyfrifon y cyrff addysg y craffwyd arnynt gan y Pwyllgor nifer o doriadau yn y gyllideb dros gyfnod o flynyddoedd a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar eu dulliau cynllunio ariannol.

**12.** Roedd y Pwyllgor o'r farn bod pob un o'r sefydliadau hyn wedi darparu strategaethau clir o ran sut yr oeddent yn delio â hyn a'r dull o nodi'r hyn y byddent yn gallu ei gyflawni yn y dyfodol.

**13.** Fodd bynnag, cafwyd rhai pryderon ynghylch gallu sefydliadau i gynllunio yn y tymor hir. Dywedodd Estyn wrth y Cynulliad fod eu cyfansoddiad yn golygu nad ydynt 'yn cael cadw arian o gwbl'[3] felly ni allant gadw unrhyw arbedion a nodwyd yn ystod y flwyddyn i fynd i'r afael â gostyngiadau yn y gyllideb yn y dyfodol. Cred y Pwyllgor fod y gallu i gynllunio dros y tymor canolig yn fuddiol, ac er ein bod yn deall y cyfyngiadau ar Lywodraeth Cymru o ran dyrannu cyllidebau, anogwn Lywodraeth Cymru i hwyluso'r angen i gynllunio dros gyfnod hwy na blwyddyn.

### Materion staffio

**14.** Canolbwyntiodd y Pwyllgor ar faterion staffio ym mhob sefydliad ac yn enwedig ar lefelau salwch a rheoli perfformiad. Mae gan y Pwyllgor nifer o sylwadau cyffredinol ynghylch y broses o adrodd ar absenoldeb oherwydd salwch, yn ogystal â rhai sylwadau mwy penodol yng nghorff yr adroddiad.

**15.** Mae'r CIPD (y corff proffesiynol ar gyfer Adnoddau Dynol a datblygu pobl) yn cynhyrchu adroddiad blynyddol ar reoli absenoldeb sy'n gosod ffigurau cyfartalog ar gyfer nifer o sectorau yn cynnwys y sector cyhoeddus. O fewn yr adroddiad hwn, mae'r CIPD yn cynhyrchu ffigurau cymedrig a chymedr cynnil o 5%, a gaiff ei gyfrifo i sicrhau nad yw rhai achosion eithafol yn ystumio'r canlyniadau. Caiff canlyniadau'r arolwg hwn eu defnyddio gan sefydliadau'r sector cyhoeddus i feincnodi eu perfformiad.

---

[2] Mae cyfeiriadau yn adroddiad y Pwyllgor at yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon/cyfrifon yn cyfeirio at y fframwaith adrodd tair rhan hwn.
[3] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 370

**16.** Gan mai nifer cymharol fach o gyflogeion sydd mewn rhai sefydliadau cyhoeddus, nododd y Pwyllgor y gallai absenoldebau hirdymor ystumio'r ffigurau absenoldeb oherwydd salwch. Roedd hwn yn fater a nodwyd gan y Pwyllgor Cyllid wrth ystyried Adroddiad Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, a ddaeth i'r casgliad canlynol:

> "Mae'r Pwyllgor yn nodi bod lefelau absenoldeb salwch wedi gwella ac er ein bod yn deall bod angen cymharu lefelau salwch â chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, rydym yn ymwybodol o fanteision cofnodi manylion lefelau salwch tymor byr a thymor hir wrth fynd i'r afael â'r mater, a chroesawn y ffaith bod hyn wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol."[4]

**17.** Bu'n anodd iawn i'r Pwyllgor wneud cymariaethau cywir ar draws sefydliadau oherwydd ei bod yn ymddangos bod dulliau gwahanol o gyfrifo absenoldebau oherwydd salwch a chafwyd rhywfaint o amrywiaeth o ran pa un o'r ffigurau cymedrig CIPD, a data pa flwyddyn, a ddefnyddiwyd er cymhariaeth.

**Argymhelliad 2.** **Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn datblygu ac yn dosbarthu canllawiau arfer gorau ar adrodd ar salwch. Dylai'r canllawiau nodi'r mathau o ddata cymharol y dylid eu defnyddio a dylid defnyddio'r ffigurau CIPD diweddaraf er mwyn sicrhau bod gwybodaeth gyson yn cael ei chasglu gan bob sefydliad.**

**18.** Yn ogystal ag ystyried gwybodaeth am salwch a rheoli perfformiad, edrychodd y Pwyllgor hefyd y dull o ymdrin â chynlluniau ymadael gwirfoddol ar draws y sefydliadau. O ystyried y dystiolaeth a gafwyd, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod canfyddiadau adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar reoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru o 2015 ymlaen, mewn perthynas â'r amrywiaeth cadernid ynghylch achosion busnes, yn berthnasol o hyd. Cred y Pwyllgor na ddylai'r gwerthusiad o'r defnydd o'r cynlluniau hyn fod yn seiliedig ar arbedion cost yn unig, ond dylid ystyried yr effaith ehangach ar dimau. Rhoddwyd llawer o ystyriaeth i'r arbedion a oedd yn deillio o'r cynlluniau hyn, ond mae'r Pwyllgor yn awyddus i ailddatgan argymhelliad chwech yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, sef:

> "Dylai cyrff cyhoeddus fonitro'r arbedion a ddisgwylir ac a sicrheir yn sgil ymadawiadau cynnar a dylent roi adroddiad arnynt fel rhan o'u trefniadau llywodraethu mewnol. Bydd hyn o gymorth pan wneir cynlluniau i leihau costau yn y dyfodol."[5]

**19.** Nododd y Pwyllgor fod ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol i Gyflogau Uwch Reolwyr wedi dod i'r casgliad bod darlun anghyson o hyd o ran datgelu cyflogau uwch reolwyr ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Nododd Llywodraeth Cymru mewn diweddariad ar 28 Tachwedd 2016 fod Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus yn annhebygol o allu casglu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol ar draws y sector cyhoeddus er bod y corff hwnnw'n paratoi adroddiad ar y mater.[6]

**20.** Er nad oedd gan y Pwyllgor unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch y cyrff y craffwyd arnynt eleni, mae hwn yn fater y bydd y Pwyllgor yn ei fonitro ac yn ei ystyried mewn sesiynau craffu ar gyfrifon dilynol.

---

[4] http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10824/cr-ld10824-w.pdf
[5] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru, Chwefror 2015
[6] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; Papur un Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ar Gyflogau Uwch Reolwyr, 28 Tachwedd 2016

# 02. Adroddiad blynyddol a chyfrifon Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cefndir

**21.** Mae Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Comisiwn) yn un o ddau sefydliad sy'n cael eu gwahodd yn flynyddol (ynghyd â Llywodraeth Cymru) i fod yn destun proses graffu gan y Pwyllgor, a dyma'r drydedd flwyddyn i'r Pwyllgor graffu ar ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon.

**22.** Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 y Comisiwn yn ei gyfarfod ar 19 Medi 2016. Mae'r cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 12 Gorffennaf 2016.

**23.** Mae cyllideb a dangosyddion perfformiad y Comisiwn yn destun proses graffu gan y Pwyllgor Cyllid. Cyflwynwyd cyllideb 2017-18 y Comisiwn ym mis Medi 2016 a chrafodd y Pwyllgor Cyllid arni ar 5 Hydref 2016.

**24.** Gwnaeth adroddiad blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15,[7] saith argymhelliad penodol i'r Comisiwn. Roedd yr argymhellion hyn yn canolbwyntio ar gyflwyno'r cyfrifon, hygyrchedd gwefan y Comisiwn, materion staffio a'r rheolaethau mewnol a roddwyd ar waith yn dilyn achos o dwyll yn 2013-14.

## Hygyrchedd Cyhoeddus yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

**25.** Roedd adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16 y Comisiwn yn cynnwys dogfen gryno ar-lein, yn deillio o argymhelliad gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol. Yn ogystal â'r ddogfen gryno, dywedodd y Comisiynydd dros y Gyllideb a Llywodraethu, Suzy Davies AC wrth y Pwyllgor fod y wybodaeth wedi cael ei symleiddio a bod y dull cyflwyno'n gliriach.

**26.** Nid oedd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn glir ynghylch y cysylltiad rhwng adnoddau a blaenoriaethau'r Comisiwn. Dywedodd Claire Clancy, y Prif Weithredwr:

> "it's a slightly spurious thing to do because the figures are so big and, obviously, there's a considerable amount of overlap between the use of resources between the strategic goals. So, for example, much of the work that staff do—they'd be delivering all three of the strategic goals at the same time: so, engagement, using resources wisely and outstanding parliamentary support. So, what we tried to do is give some real transparency through what's being delivered, rather than what might be a sort of spurious headline that doesn't really add to that transparency."[8]

**27.** Gofynnodd y Pwyllgor sut y cafodd fformat newydd yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ei brofi i sicrhau ei fod yn cyflawni'r nod o fod yn fwy tryloyw a hygyrch, a sut y cafodd y llwyddiant hwn ei fesur. Amlinellodd y tystion yr ystod o wiriadau sydd ar waith i sicrhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno mor syml â phosibl. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn credu y gellid gwneud mwy o ran gofyn am adborth ehangach gan randdeiliaid.

---

[7] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2014-15, Rhagfyr 2015
[8] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 55

**28.** Mae'r Pwyllgor yn deall yr angen i gydymffurfio â gofynion y Trysorlys ar gyfer cyflwyno datganiadau ariannol a chyda'r disgwyliadau cyffredinol ar gyfer cynnwys adroddiadau perfformiad ac atebolrwydd. Mae'n croesawu'r gwaith a wneir gan y Comisiwn i wneud yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn fwy darllenadwy i'r cyhoedd. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo'r gwaith hwn i wella hygyrchedd ei adroddiad blynyddol a chyfrifon. Fodd bynnag, credwn fod angen gwneud mwy o waith i feintoli'r adnoddau sydd eu hangen i gyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau unigol a nodir yn yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor blaenorol. Mae argymhelliad un, ar dudalen 8 yn berthnasol i bryderon y Pwyllgor yma.

## Rheoli'r Gyllideb

### Arbedion Effeithlonrwydd

**29.** Mae Adroddiad Blynyddol a chyfrifon y Comisiwn yn cofnodi arbedion o £866,000 ar gyfer 2015-16. Holodd y Pwyllgor y tystion sut y cyflawnwyd yr arbedion hyn, ac a oes dull meincnodi rhwng seneddau mewn perthynas ag arbedion effeithlonrwydd. Dywedodd Suzy Davies AC:

> "In terms of setting targets, in the past I think the emphasis was very much on cutting back on staff, or staff changes, whereas there was encouragement, I think, actually, from this committee to start looking at other sources of savings, more non-staff-related savings and more recurring savings. And even though there are limitations to what you can save in that way, certainly there's a great focus on those when budget decisions are being taken."[9]

**30.** Roedd y Pwyllgor yn falch o glywed gan y Prif Weithredwr am y meincnodi sy'n digwydd gyda seneddau eraill, a bod y Comisiwn yn gwneud y canlynol:

> "….work with the other Parliaments on how to deliver efficiencies. So, with the Northern Ireland Assembly and the Irish Parliament in particular, we've been to see their good practice. Then we tend, between us as Parliaments, to leap-frog one another. So, someone has a good idea and then we go and pinch it, build on it and make it better. So, there's that sort of learning between the Parliaments. So I think we can be confident that, within public sector organisations delivering similar services, we're stretching appropriately."[10]

**31.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws y Comisiwn ar arbedion nad ydynt yn ymwneud â staff, ac arbedion mwy rheolaidd gan fod hwn yn ddull gweithredu mwy cynaliadwy. At hynny, hoffai'r Pwyllgor annog y Comisiwn i barhau â'r arfer o rannu a defnyddio arferion da rhwng Seneddau.

### Gwall trosi o fewn cyllideb 2015-16

**32.** Roedd dogfen gyllideb 2015-16 yn cynnwys "gwall trosi" o £300,000 (y cyfeirir ato ar dudalen 93 o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon). Arweiniodd hyn at gyflwyno ffigur yng nghynnig cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer Comisiwn y Cynulliad a oedd £300,000 yn llai na'r hyn a oedd wedi cael ei awdurdodi gan y Cynulliad. Felly mewn gwirionedd, roedd cyllideb y Comisiwn wedi cael ei lleihau £300,000.

> "Roedd dogfen cyllideb Comisiwn y Cynulliad 2015-16 yn cynnwys gwall trosi. Roedd cyfanswm y ffigur alldro net yn y ddogfen honno £300,000 yn uwch na'r

[9] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 64
[10] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 65

> ffigur yng nghynnig ffurfiol y gyllideb ar gyfer 2015-16. Mae'r gwahaniaeth o £300,000 wedi cael ei gynnwys fel addasiad uchod i sicrhau bod y cyfanswm yng ngholofn y gyllideb yn cyfateb â'r adnoddau yr awdurdododd y Cynulliad yn ffurfiol. Nid yw hyn yn effeithio ar y gofyniad arian parod net."[11]

**33.** Holodd y Pwyllgor y Comisiwn sut y cafodd y gwall trosi hwn ei ddatgelu a'r effaith a gafodd ar gyllideb 2015-16, a chyllideb 2016-17. Dywedodd Suzy Davies AC:

> "…I think it's fair to say that there was an impact. The error, if you like, wasn't discovered until the budget document itself, in which the actual error occurred, was being reconciled with this annual report. And that inevitably had an implication on what was available for spending in 2015-16. I suppose that will carry on into 2016-17 as well. So, there will have been activities that perhaps the investment board would have suggested to us were a good idea that we could have done in year that we weren't able to do in year, because we had to, of course, take account of the £300,000 paper overspend."[12]

**34.** Dywedodd y Prif Weithredwr er i hyn gael effaith, nid oedd yn ddifrifol[13] gan fod dull rheoli cyllideb y Comisiwn yn cynnwys hyblygrwydd a chynlluniau ar gyfer gwelliannau yn yr hirdymor sy'n golygu bod modd goresgyn unrhyw broblemau posibl a allai godi o ganlyniad i'r ffaith bod diwedd blwyddyn yn dorbwynt llwyr.

**35.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull rheoli ariannol hwn, am ei fod yn rhoi sicrwydd a gallu ychwanegol i reoli newid, a oedd yn werthfawr iawn yn yr achos hwn. Serch hynny, ni fyddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld gwall o'r fath yn digwydd yn y gyllideb eto.

## Ymgysylltu digidol

**36.** Yn dilyn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2016, gwnaeth y Comisiwn nifer o welliannau i'w wefan, yn cynnwys gwella tudalennau bywgraffiadau'r Aelodau a sicrhau bod yr hafan yn haws ei defnyddio. Yn ystod y broses flaenorol o graffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn, cododd yr Aelodau nifer o bryderon ynghylch y wefan, a dywedwyd ei bod yn 'ddyrys'. Gofynnwyd i'r tystion beth oedd wedi newid ers y llynedd ac a oedd y newidiadau hyn wedi gwella hygyrchedd y wefan. Dywedodd Suzy Davies AC :

> "There's been a considerable number of enhancements made. If you look at the first page, for instance, the top level series of subjects that you have are far more pertinent to the type of things that both we as Members and people outside this Assembly would be looking at every day."[14]

**37.** At hynny, cododd yr Aelodau bryderon ynghylch y dull o gofnodi faint o ddefnyddwyr a oedd yn cael mynediad i wahanol rannau o'r wefan. Teimlwyd ei bod yn bwysig bod y Comisiwn yn deall pa rannau yr ymwelwyd â hwy yn aml a pha rai nad edrychwyd arnynt yn aml. Clywodd y Pwyllgor fod gwybodaeth am ddefnyddwyr yn cael ei chasglu ac roedd hyn yn un dull a ddefnyddiwyd i fonitro'r wefan, er mwyn sicrhau nad oeddent yn y sefyllfa a amlygwyd yn ystod gwaith craffu 2015:

---

[11] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Comisiwn y Cynulliad 2015-16, tudalen 99
[12] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 110
[13] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 114
[14] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 78

> "…where we were getting feedback about appearing impenetrable. So, we will be making sure we get feedback of all different sorts: it isn't just about volume, but how accessible and easy people are finding the website, so that we can continuously improve."[15]

**38.** Dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor fod gwybodaeth ddigidol yn un o flaenoriaethau'r Llywydd ar gyfer y Pumed Cynulliad, ac yn enwedig sut y câi'r wybodaeth ei rhannu a'i throsglwyddo. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> "The Llywydd has announced a taskforce to look at ways to raise our game on how we're doing that. So, it's not just the website; it's our total services around this. That taskforce will do some short, sharp work during the autumn, so I think we'll see very quickly a further raising of the bar on all of this."[16]

**39.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed hyd yma i wella gwefan a chynnwys digidol y Comisiwn. Gan fod hwn yn faes pwysig sy'n flaenoriaeth i'r Comisiwn a bod adnoddau'n cael eu dyrannu i'w wella, bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar waith y tasglu digidol pan fydd yn craffu ar adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2016-17.

## Staffio

### Salwch

**40.** Roedd cyfradd salwch gyffredinol y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn yn cyfateb i 8.09 diwrnod gwaith cyfartalog fesul person (3.68%). Mae'r Pwyllgor yn nodi y bu tuedd ar i fyny o ran absenoldeb oherwydd salwch ers 2013-14 pan oedd y gyfradd yn cyfateb i 5.48 diwrnod gwaith, neu 2.94% yn 2013-14. Pan holwyd y tystion ynghylch y cynnydd hwn, clywodd y Pwyllgor fod cyfuniad o ffactorau'n gyfrifol am hyn[17] a'i fod yn fater yr oeddent yn bwriadu canolbwyntio arno, i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddewis gyflogwr. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> "We've had a handful of, unfortunately, sad cases of individuals on long-term sickness because of, you know, horrible illnesses. So, that has been a contributory factor. But when the management board met in June,…, we had all the data available to us on the different range of sickness absence and looked at what we could do to improve our management of the situation. So, that includes new training for line managers in managing sickness absence, a mental health and well-being programme…and a review of working patterns and more systematic reviews of absence data with heads of service."[18]

**41.** Dywedodd y Prif Weithredwr, ers cymryd y camau hyn, y gwelwyd rhai gwelliannau eisoes, ac y byddai hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed hyd yma, a'r ymrwymiad i fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch. Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch yng ngwaith craffu 2016-17.

[15] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 88
[16] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 89
[17] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 146
[18] Cofnod y Trafodion, 19 Medi 2016, paragraff 147

### Cynllun Diswyddo Gwirfoddol

**42.** Yn ystod 2015-16, cynhaliodd y Comisiwn gynllun diswyddo gwirfoddol ar gyfer staff. Er bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn datgan y byddai'r cynllun yn cyflawni £0.5 miliwn o arbedion effeithlonrwydd, nid oedd unrhyw wybodaeth yn y ddogfen am y cyfnod ad-dalu ar gyfer y cynllun, ac ni allai'r tystion gadarnhau'r cyfnod pan gawsant eu holi gan yr Aelodau. Cafwyd gwybodaeth am y cyfnod ad-dalu gan y Comisiwn yn dilyn y cyfarfod, a chadarnhawyd mai 1.4 blynedd neu 16 mis fyddai'r cyfnod ad-dalu.[19]

**43.** Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar yr atebion a gafwyd gan y Comisiwn o ran diben a nodau'r cynllun ymadael gwirfoddol, a chytunwn â'r argymhelliad a wnaed gan y Pennaeth Archwilio Mewnol sef:

> "the Commission reassesses the success or otherwise of the Scheme on an ongoing basis and considers its impact on future efficiency and financial savings."[20]

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, PAC(5)-06-16 PTN 1, 17 Hydref 2016
[20] ibid

# 03. Gyrfa Cymru

## Cyflwyniad

**44.** Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Gyrfa Cymru yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2016. Mae'r cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 20 Gorffennaf 2016.

**45.** Sefydlwyd Gyrfa Cymru yn 2013, yn dilyn uno chwe chwmni gyrfaoedd rhanbarthol ac un corff cenedlaethol, ac mae'n is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gosod cylch gwaith blynyddol ar gyfer Gyrfa Cymru, y maent yn ei gyflawni ar y cyd â'r canlynol:

> "… gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd annibynnol, diduedd a dwyieithog i bob oedran yng Nghymru."[21]

**46.** Nododd llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 y wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd y disgwylir i Gyrfa Cymru eu darparu gan ganolbwyntio'n benodol ar y grwpiau â blaenoriaeth canlynol:

- Pobl ifanc â datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig neu ddatganiad cyfatebol;
- Pobl ifanc 11-18 oed y mae angen gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd (CIAG) arnynt fwyaf;
- Pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn rhywle ar wahân i'r ysgol;
- Pobl ifanc 16-17 oed sy'n ddi-waith;
- Pobl ifanc yn y system Cyfiawnder Ieuenctid;
- Oedolion di-waith sy'n cael defnyddio rhaglen Porth Sgiliau Unigol Llywodraeth Cymru;
- Oedolion sy'n wynebu perygl o golli swydd neu sydd ar fin colli swydd.

## Hygyrchedd Cyhoeddus yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon

**47.** Fel is-gwmni sydd ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru, nid yw gofynion adrodd newydd y Trysorlys ar gyfer yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn ymwneud yn uniongyrchol â Gyrfa Cymru. Cyhoeddodd Gyrfa Cymru 'Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a Datganiadau Ariannol' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16 a'u cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau. Yn ogystal â hyn, mae Gyrfa Cymru hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol, gyda fersiwn gryno. Mae'r adroddiad blynyddol yn anelu at fod yn fwy hygyrch a hawdd ei ddefnyddio, yn cynnwys testun a graffeg amrywiol gan amlygu'r prif bwyntiau a darparu lluniau o'r technolegau newydd sy'n cael eu defnyddio. Ni chyhoeddwyd y ddwy ddogfen ar yr un pryd, a chyhoeddwyd yr adroddiad blynyddol yn hwyrach na'r cyfrifon.

**48.** Holodd yr Aelodau'r tystion ynghylch a oedd Gyrfa Cymru yn bwriadu dod â'r ddwy ddogfen hyn at ei gilydd a chreu un ddogfen gyhoeddus. Dywedodd Richard Spear, Prif Weithredwr Gyrfa Cymru:

---

[21] Adroddiad Blynyddol 2015-16 Gyrfa Cymru, tudalen 4

> "We've merged seven organisations into one, and there have been a lot of issues with closing down the old companies. That's been a priority: to make sure that we get the accounts produced accurately to a standard that, obviously, our board are comfortable with, and our external auditors are comfortable with. Going forward, I think we're open to any thoughts or suggestions as to how we can increase the transparency of the whole range of documents that we produce for public reasons, to demonstrate proper use and regularity of the funds that we discharge."[22]

**49.** Mae'r Pwyllgor yn deall yr heriau sy'n gysylltiedig ag uno nifer o sefydliadau yn un corff, ac mae'n croesawu'r ymrwymiad gan Gyrfa Cymru i ystyried fformat a thryloywder ei adroddiad blynyddol a'i gyfrifon wrth fynd rhagddo. Mae argymhelliad un yn berthnasol yma ac yn ogystal â hyn:

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn ymgynghori â rhanddeiliaid i gasglu mewnbwn ar wella tryloywder a hygyrchedd ei ddogfennaeth gyfrifyddu.

## Cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Gyrfa Cymru

**50.** Dengys cyfrifon Gyrfa Cymru (tudalen 29) mai Llywodraeth Cymru yw ei brif ffynhonnell refeniw. Yn 2015-16 roedd hyn yn cyfateb i £25,845,000 a oedd yn cyfrif am 97% o gyfanswm y refeniw. Darparodd contractau eraill £653,000 a darparodd prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) £92,000 o refeniw.

**51.** Mae dyraniad cyllideb graidd Llywodraeth Cymru ar gyfer Gyrfa Cymru wedi gostwng yn sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. £20m oedd dyraniad y gyllideb yn 2015-16, a oedd yn ostyngiad o £30.5m yn 2014-15. Mae hyn ar wahân i'r cyllid y mae Gyrfa Cymru yn ei dderbyn ar gyfer prosiectau unigol megis y Porth Sgiliau Unigol, Prosiectau Strategol a ReAct.

**52.** Mae'r cyfrifon yn nodi mai un o'r prif risgiau ac ansicrwydd sy'n wynebu Gyrfa Cymru yw'r posibilrwydd o ostyngiad yn ei gyllideb yn y dyfodol.

> "Discussions are continuing with Welsh Government on future budgets. The company are working with PWC to look at the strategic vision for CCDG and a report will be presented to the Welsh Government in April 2016. This will provide recommendations as to how Careers Wales will focus its services to provide a relevant, modern national Careers Service for Wales which achieved positive outcomes for clients."[23]

**53.** Mae'r adroddiad blynyddol yn cyflwyno diben ac amcanion Gyrfa Cymru, sef:

> "cefnogi cleientiaid i gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd yn fwy effeithiol, gan gydnabod nad yw rheoli gyrfa bellach yn golygu un dewis galwedigaethol, ond yn hytrach gyfres o newidiadau gyrfa drwy gydol oes. Drwy wella sgiliau rheoli gyrfa a chymwyseddau cleientiaid, gallant wneud y newidiadau hyn yn

[22] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 9
[23] Cyfrifon Gyrfa Cymru 2015-16, tudalen 5

> rhwyddach, cael mwy o foddhad gyda'u gyrfaoedd a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi."[24]

**54.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion am effaith bosibl toriadau pellach yn y gyllideb ar ei allu i gyflawni amcanion Gyrfa Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> "…our priority has been to try and mitigate any negative outcomes as a consequence of that significant reduction in the budget. In doing so, we have changed our delivery model, and so we are far more reliant on digital technology to try and extend the reach and impact of our services, and we have focused our face-to-face resources—our expert professional, impartial advisers and other staff—on younger people. So, there have been some consequences as a result in terms of the type of client that we can support and the ways in which we can support them."[25]

**55.** At hynny, dywedodd y tystion wrth y Pwyllgor eu bod wrthi'n cyflwyno gweledigaeth strategol newydd ar gyfer y sefydliad sy'n nodi'n amlwg y buddiannau i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i fuddsoddi yng ngwasanaeth Gyrfa Cymru, ac y byddai'r rhain yn gosod yr opsiynau ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran pa wasanaethau y gellid eu lleihau ac unrhyw ostyngiadau pellach yn y gyllideb. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> "… advising the Welsh Government as to which services that we withdraw. I think we're at the point now where we've got to take those strategic decisions rather than continue to cut everything across the board in order to minimise the impact of any further cuts."[26]

**56.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull strategol hwn o gynllunio'r gyllideb, a gosod gweledigaeth strategol wrth symud ymlaen. Wrth gyflawni gwerth am arian ymddengys fod hyn yn ddull darbodus a synhwyrol. Byddai'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i weithio'n adeiladol gyda Gyrfa Cymru i gyflawni'r nodau hyn.

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi Gyrfa Cymru i ddatblygu a gweithredu ei weledigaeth strategol.

## Darpariaeth Gymraeg Gyrfa Cymru

**57.** Mae cynllun blynyddol Gyrfa Cymru yn nodi nad yw'n cydymffurfio â safonau'r Gymraeg, ond ei fod yn dilyn cynllun Iaith Gymraeg. Y rheswm am hyn yw oherwydd na chafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016,[27] a oedd yn ymwneud â chyrff addysgol, eu cymeradwyo gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod y Pedwerydd Cynulliad. O ganlyniad mae'r adroddiad blynyddol yn datgan 'ni all Comisiynydd y Gymraeg gyhoeddi hysbysiad cydymffurfio ar hyn o bryd yn manylu ar y safonau penodol y mae gofyn i CCDG gydymffurfio â hwy'.[28] Eglurodd y Prif Weithredwr fod problem ynghylch argaeledd siaradwyr Cymraeg o fewn Gyrfa Cymru. At hynny, dywedodd fod dulliau amrywiol wedi'u defnyddio i fynd i'r afael â'r mater, er enghraifft defnyddio Skype i gynnal cyfweliadau, os nad

---

[24] Adroddiad Blynyddol Gyrfa Cymru 2015-16
[25] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 14
[26] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 16
[27] Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 3) 2016
[28] Adroddiad Blynyddol Gyrfa Cymru 2015-16

oedd siaradwr Cymraeg ar gael yn lleol. Dywedodd wrth y Pwyllgor mai dyma'r opsiwn mwyaf rhesymol, o dan yr amgylchiadau.[29]

**58.** Holodd y Pwyllgor ymhellach a oedd unrhyw ddarpariaeth i gynnal cyfweliadau mewn ieithoedd eraill ar wahân i'r Gymraeg neu'r Saesneg. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Pwyllgor y byddai'r sefydliad yn ei chael hi'n anodd bodloni cais o'r fath, ond nad oedd wedi'i godi fel mater hyd yma.

**59.** Mae'r Pwyllgor yn pryderu nad oes digon o allu o fewn Gyrfa Cymru i gyflawni uchelgais Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Er ein bod yn croesawu'r dulliau arloesol a gymerwyd i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, credwn y dylid egluro pa safonau penodol y mae'n ofynnol i Gyrfa Cymru gydymffurfio â hwy. Cred y Pwyllgor y dylid ystyried mynd i'r afael â gallu Gyrfa Cymru i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael mynediad i'r gwasanaethau yn eu dewis iaith ar yr adeg y byddant yn cysylltu â'r gwasanaeth.

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg i egluro'r safonau penodol y mae'n ofynnol i Gyrfa Cymru gydymffurfio â hwy.

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cynnwys yr angen am ddarpariaeth Gymraeg briodol ledled Cymru yn ei brosesau meithrin gallu ac yn ystyried sut y gall ddiwallu anghenion y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg na Saesneg.

### Strategaeth Ddigidol Gyrfa Cymru

**60.** Nodwyd risg sylweddol arall o fewn cyfrifon Gyrfa Cymru sef bod angen newid y wefan yn sylweddol mewn perthynas â'i seilwaith a'r dull o reoli'r gronfa ddata. Nododd y Pwyllgor fod y dangosyddion perfformiad allweddol wedi cofnodi lleihad mewn cysylltiadau drwy gyfrwng y wefan. Eglurodd y Prif Weithredwr nad oedd y ffigurau yn gymaradwy o ganlyniad i ailseilio'r ffigurau yn 2015-16, i gofnodi unigolion unigryw yn unig, ac atal Twf Swyddi Cymru am gyfnod yn ystod 2015-16, sef un rhan o'r wefan yr ymwelwyd â hi yn aml. Cadarnhaodd Gyrfa Cymru eu bod yn hyderus na fyddai unrhyw anomaleddau pellach wrth symud ymlaen, ac y byddai'r wybodaeth a gesglir yn y dyfodol yn rhoi gwell darlun o'r defnydd o'r wefan.

**61.** Holodd yr Aelodau'r tystion ynghylch y wefan, a'i defnyddioldeb. Roedd y Pwyllgor yn pryderu'n bennaf ynghylch ei gwneud yn gyson â thechnoleg symudol oherwydd dyma brif lwybr mynediad pobl ifanc. Cydnabu'r Prif Weithredwr bod llawer i'w wneud o ran, yn bennaf, pensaernïaeth y data a'r dechnoleg y mae'n seiliedig arnynt[30] ond er mwyn goresgyn hyn yn y cyfamser, dywedodd fod Gyrfa Cymru wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfeirio pobl at dudalennau perthnasol y wefan.

**62.** Dywedodd Gyrfa Cymru wrth y Pwyllgor mai un o'r heriau hyd yma ar y wefan oedd egluro'r diben, a'u bod wedi galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi eu gweledigaeth strategol newydd ar gyfer dyfodol y sefydliad, a fydd yn gwneud y canlynol:

> "… give us [Careers Wales] the clarity of purpose to establish a clear digital strategy that drives the organisation forward in the same direction."[31]

---

[29] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 168
[30] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 26
[31] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 27

**63.** Cred y Pwyllgor bod angen gwneud gwelliannau i'r wefan, yn enwedig o ran ei gwneud yn addas ar gyfer dyfeisiau symudol, er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio mor effeithlon â phosibl a bod gwelliant o ran hygyrchedd y wefan.

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn datblygu ei wefan i'w gwneud yn addas at y diben ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud y gwaith hwn, dylid sicrhau ei bod yn gyson â thechnoleg symudol, ac y gellir ei llywio'n hawdd. Hoffem weld gwelliannau i'r wefan yn ystod y 12 mis nesaf, a'r gwaith cyfan wedi'i gwblhau o fewn dwy flynedd.

## Staffio

### Diswyddo Staff a Diswyddo Gwirfoddol

**64.** Mae Gyrfa Cymru yn datgan yn eu Cynllun Strategol 2015-18 a'u Cynllun Busnes 2015-16 eu bod wedi profi cyfnod ailstrwythuro estynedig a'u bod yn deall bod angen cefnogi ac ymgysylltu â'u staff yn ystod cyfnod estynedig o ansicrwydd a newid.

**65.** Ar ôl ei sefydlu, penododd Gyrfa Cymru Brif Weithredwr yn 2013 ac mae'r cyfrifon yn datgan, yn ystod 2015-16 bod Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymarferion recriwtio gan benodi tri Chyfarwyddwr newydd.

**66.** Dengys cyfrifon 2015-16 (tudalen 29) fod Gyrfa Cymru wedi cyflogi 648 o staff yn 2015-16, sef gostyngiad o 103 o staff ers 2014-15. Cynhaliwyd cynllun diswyddo gwirfoddol yn 2014-15, o ganlyniad i ostyngiad a ragwelwyd yng nghyllideb Gyrfa Cymru ar gyfer 2015-16. O ganlyniad i hyn, gadawodd 88 o staff y sefydliad am gost o £2.485m, sef cost gyfartalog o tua £28,000 fesul aelod o staff.

**67.** Holodd y Pwyllgor y tystion ynghylch rheoli darpariaeth graidd yng ngoleuni'r achosion o ddiswyddo. Cadarnhaodd Gyrfa Cymru fod y targedau wedi'u hadolygu a'u diwygio gyda Llywodraeth Cymru yng ngoleuni'r adnoddau llai a'u bod wedi datblygu methodoleg i ddyrannu adnoddau ar draws ysgolion i sicrhau tegwch.

**68.** Trafododd y Pwyllgor gyda'r tystion hefyd a oedd y cynllun diswyddo gwirfoddol wedi darparu gwerth am arian, a dywedodd y Prif Weithredwr:

> "We think that it was a fair scheme, but it was less generous than other schemes that apply across public services. One of the key tests that we applied to the requests that we had was the payback period, and we were confident that the payback period on average was less than one year. And, in making those redundancies—it cost us £2.5 million—we saved £2.7 million in the following year through reduced staffing costs."[32]

**69.** Cydnabu Gyrfa Cymru fod yr achosion o ddiswyddo wedi rhoi pwysau ychwanegol ar staff wrth ddarparu gwasanaethau, ond eu bod yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy adolygu'r broses o ddyrannu adnoddau.

### Data absenoldeb oherwydd salwch

**70.** Nid yw data absenoldeb oherwydd salwch yn ymddangos yn adroddiad blynyddol na chyfrifon Gyrfa Cymru. Holodd y Pwyllgor y tystion ynghylch y lefelau absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer Gyrfa Cymru. Dywedodd y Prif Weithredwr, ar ôl cyflwyno polisi rheoli absenoldeb newydd yn Hydref

[32] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 73

2015, y bu gwelliant yn y data a gasglwyd. Cadarnhaodd mai 11 diwrnod fesul cyflogai oedd y ffigur salwch cyfartalog ar gyfer 2015-16, a oedd yn ostyngiad o 14 diwrnod yn 2014-15.[33]

> "We recognise that that is still higher than where we'd like it to be, so we've introduced a number of mechanisms over the last year to try and reduce that. So, we have a very clear management absence policy. Everybody that goes off sick has a meeting with their line manager when they come back, and it's about a balance."[34]

**71.** Pan holwyd ef ymhellach ynghylch sut y caiff polisïau i reoli absenoldeb oherwydd salwch eu monitro, ac a oedd Undebau Llafur yn gysylltiedig, dywedodd y Prif Weithredwr:

> "The union, by the way, are certainly very much on board with all the things that we're trying to achieve as a company, not least tackling absence management."[35]

**72.** Gofynnodd y Pwyllgor i Gyrfa Cymru a fyddai'n fodlon cyhoeddi ei ddata ar salwch yn y dyfodol, a chroesawyd yr ymrwymiad gan Gyrfa Cymru i argymell hyn i'r Bwrdd ar gyfer y dyfodol.

**73.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw cyhoeddi data ar salwch yn ofyniad statudol ar gyfer Gyrfa Cymru, credwn fod hyn yn wybodaeth bwysig o ran bod yn agored ac yn dryloyw a'i bod yn dangos sut y caiff sefydliad ei reoli. O ystyried lefel uchel yr absenoldeb oherwydd slawch yn Gyrfa Cymru, a'r strategaeth newydd sydd ar waith i reoli hyn, cred y Pwyllgor fod y wybodaeth yn ddefnyddiol er mwyn sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro o ran lleihau absenoldeb oherwydd salwch.

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Gyrfa Cymru yn cyhoeddi ei ddata absenoldeb oherwydd salwch yn ei adroddiad blynyddol er mwyn gwella tryloywder.

## Costau Pensiwn

**74.** Mae cyflogeion Gyrfa Cymru yn aelodau o saith Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) o ganlyniad i uno'r cwmnïau gyrfaoedd rhanbarthol yn flaenorol. Mae'r saith cronfa bensiwn fel a ganlyn:

- Cronfa Bensiwn Gwent Fwyaf (Torfaen);
- Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg;
- Cronfa Bensiwn Dyfed;
- Cronfa Bensiwn Cyngor Sir Powys;
- Cronfa Bensiwn Clwyd;
- Cronfa Bensiwn Gwynedd;
- Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf.

**75.** Mae gan bob cronfa bensiwn dybiaethau ariannol a dyraniadau asedau gwahanol, y ceir manylion amdanynt yn y cyfrifon. Cyfrifir mai cyfanswm y diffyg pensiwn ar gyfer 2015-16 yw

---

[33] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 75
[34] ibid
[35] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 101

£20,868,000. Mae'r diffyg hwn yn amcangyfrif o'r diffyg disgwyliedig o ran asesdau dros ddiffygion yn y cronfeydd pensiwn. Mae'r cyfrifon yn datgan:

> "It is not expected that significant additional pension contributions will be required in the short term."[36]

**76.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion a ystyriwyd uno'r cronfeydd pensiwn yn un gronfa a dywedwyd:

> "We've certainly explored the option of merging them into one. It would be our preference to do that. We had discussions with pension schemes back in 2014—Dyfed, I think, were keen to accommodate a merged pot, but that required a bond from the Welsh Government of £10 million and that bond was not forthcoming. So, without that, we couldn't facilitate a merger of the pension funds."[37]

**77.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r gwaith a wnaed gan Gyrfa Cymru i ymchwilio i'r opsiwn o uno ei gronfeydd pensiwn presennol yn un. Hoffem weld gwaith pellach yn cael ei wneud i ystyried yr opsiwn hwn ac i gyflwyno'r achos dros uno'r cronfeydd er mwyn cynnal trafodaethau pellach gyda Llywodraeth Cymru i ystyried hyn.

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i asesu a fyddai uno cronfeydd pensiwn Gyrfa Cymru yn sicrhau gwell effeithlonrwydd a gwerth am arian ar gyfer y dyfodol.

---

[36] Cyfrifon Gyrfa Cymru 2015-16
[37] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 143

# 04. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

## Cyflwyniad

**78.** Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2016. Roedd y cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 19 Gorffennaf 2016.

**79.** Mae CCAUC yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a sefydlwyd yn wreiddiol o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.[38] Mae CCAUC yn gorff cyhoeddus sy'n eistedd rhwng Llywodraeth Cymru a phrifysgolion Cymru. Ei brif rolau yw rheoleiddio lefelau ffioedd gan ddarparwyr addysg uwch, sicrhau bod fframwaith ar waith ar gyfer asesu safon addysg uwch a chraffu ar berfformiad prifysgolion yng Nghymru. Yn ogystal, mae CCAUC yn dosbarthu adnoddau ar gyfer addysgu ac ymchwil ym maes addysg uwch a'i nod yw cyflawni blaenoriaethau addysg uwch Llywodraeth Cymru sydd â budd ehangach i'r gymdeithas a'r economi.

**80.** Yn ddiweddar, rhoddodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015[39] rôl ehangach i CCAUC fel rheolydd addysg uwch yng Nghymru. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru mae CCAUC yn atebol i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg am ei gyllid cymorth grant.

## Cyhoeddiadau

**81.** Ystyriodd y Pwyllgor fod adroddiad blynyddol a chyfrifon CCAUC yn hawdd dod o hyd iddynt ar ei wefan a'u bod wedi'u cyflwyno'n glir gyda graffeg, testun ac esboniadau manwl. Yn ogystal, croesawodd y Pwyllgor y ffaith bod CCAUC yn cyhoeddi dogfennaeth berthynol arall megis ei lythyron cylch gwaith a strategaeth gorfforaethol mewn ffordd hygyrch ar ei wefan.

**82.** Roedd adroddiad blynyddol a chyfrifon 2015-16 yn 71 o dudalennau, bron ddwbl hyd Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cryno CCAUC ar gyfer 2012-13, a oedd yn gyfanswm o 38 o dudalennau. Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion a oedd unrhyw fwriad i greu dogfen gryno fyrrach i'r cyhoedd. Eglurodd Nick Williams, y Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol:

> "Despite some streamlining of our notes—to the accounts where we were able to omit certain disclosures made in the previous year—unfortunately, the impact of the requirements of the Treasury's new format for the annual report and accounts has, in fact, resulted in a 20 per cent increase in the length of our document for 2015-16."[40]

**83.** Yn ogystal, dywedodd wrth y Pwyllgor, ar gyfer y dyfodol, y byddai CCAUC yn ceisio symleiddio'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon cyhyd ag y bo'n bosibl.

## Llywodraethu

**84.** Mae fframwaith Llywodraethu CCAUC yn seiliedig ar y Swyddog Cyfrifyddu (Dr Blaney, Prif Weithredwr), wedi'i gefnogi gan Fwrdd Rheoli CCAUC sy'n cynnwys y Prif Weithredwr a thri chyfarwyddwr; a Chyngor CCAUC, a benodir gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn unol â Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, y mae'r Prif Weithredwr yn Aelod ohono.

---

[38] Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992
[39] Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015
[40] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 189

**85.** Yn ei adroddiad blynyddol, mae CCAUC yn datgan ei fod yn cynnal adolygiad hunanasesu blynyddol o effeithiolrwydd ei ddull llywodraethu. Yn 2015-16 cynhaliodd adolygiad hunanasesu manwl yn seiliedig ar holiaduron a gwblhawyd gan bob aelod o'r Cyngor.

> "Daeth y Cyngor i'r casgliad ei fod, yn gyffredinol, yn fodlon gydag effeithiolrwydd a phriodolrwydd ei brosesau a'i arferion llywodraethu, gan gynnwys o ran ansawdd y wybodaeth a'r data a ddarperir drwy bapurau'r Cyngor a'r pwyllgorau."[41]

**86.** Gofynnodd y Pwyllgor i CCAUC a oedd unrhyw newidiadau wedi'u cyflwyno yng ngoleuni'r adolygiad hunanasesu. Dywedodd y Prif Weithredwr, o ganlyniad i hyn, fod CCAUC yn ailedrych ar ei ddull o ymdrin â risg, oherwydd:

> "HEFCW is not a wild organisation—it's relatively conservative—and I think that reflects itself in the risk assessment that we make of the various challenges we face. We tend to be slightly on the pessimistic side, and so one of the challenges that's coming back to us from our council and from the audit and risk assurance committee is, 'Don't you think you're slightly over-egging some of these risks?' particularly, I think, in terms of impact. What we think of as, 'Well, we don't want that to happen', actually, in the grand scheme of things, the world keeps turning and we just need to get that calibration right. That's something that you need to engage with continually, but we're going through a particular exercise at the moment."[42]

**87.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r adolygiad hwn, am ei bod yn bwysig ystyried y cyfryw eitemau wrth sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Hoffem weld bod y dull o ymdrin â risg yn briodol i'r sefydliad ac nad yw'n atal y broses o gyflawni arbedion a gweithio'n fwy effeithiol.

## Gostyngiadau yn y gyllideb

**88.** Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi bod gostyngiadau yn y gyllideb yn risg sylweddol. Eglurodd CCAUC, ers cyflwyno'r polisi grant ffioedd dysgu yn ystod y flwyddyn academaidd 2012-13, fod y cyllid sydd ar gael i CCAUC i'w ddyrannu i ddarparwyr addysg uwch wedi gostwng yn sylweddol, o £216m yn y flwyddyn academaidd 2011-2012, i £151m yn y flwyddyn academaidd 2015-16.

> "O ganlyniad, mae'r Cyngor wedi gorfod gwneud penderfyniadau anodd am ostwng cyllid, mewn meysydd o flaenoriaeth strategol, gan gynnwys arloesi, y ddarpariaeth ran amser a chyllid strategol. Mae gweddill cyllid ailadroddus CCAUC yn cael ei neilltuo'n bennaf i'r meysydd ymchwil blaenoriaeth, i'r ddarpariaeth ran amser ac i bynciau drud (meddygaeth, deintyddiaeth a chelfyddydau perfformio)."[43]

**89.** Yn ei adroddiad blynyddol mae CCAUC yn nodi y gallai gostyngiadau parhaus mewn cyllid gael effaith negyddol ar allu darparwyr addysg uwch yng Nghymru i gystadlu â darparwyr y DU. Mae CCAUC hefyd yn nodi bod newidiadau cyllid yn effeithio ar bob un o'r darparwyr addysg uwch a'u cynaliadwyedd ariannol tymor hwy mewn ffyrdd gwahanol.

---

[41] Adroddiad Blynyddol CCAUC 2015-16 tudalen 32:
[42] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 203
[43] Adroddiad Blynyddol CCAUC 2015-16 tudalen 36

### Newidiadau i'r dull o weinyddu'r grant ffioedd dysgu

**90.** Dywedodd CCAUC hefyd fod penderfyniad Llywodraeth Cymru i drosglwyddo cronfeydd sy'n ymwneud â'r grant ffioedd dysgu yn uniongyrchol drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr ac ymlaen i sefydliadau addysg uwch (gan dynnu CCAUC o'r broses) wedi arwain at ostyngiad mawr yng nghyllid cymorth grant CCAUC o £362.5m i £125.7m. Holodd y Pwyllgor y tystion ynghylch y cyfathrebu a gafwyd mewn perthynas â'r penderfyniad hwn, ac effaith y penderfyniad. Dywedodd y Prif Weithredwr fod CCAUC wedi dweud y canlynol wrth y Llywodraeth yn ystod haf 2013:

> "… on balance, we didn't think we wanted them to do that, and the reason was that, although you've got the benefit of not being accountable for funds that you weren't fully controlling, there was the disbenefit of having a much smaller amount of money to deal with and all the issues that Bethan has already described. After that exchange, it all went a bit quiet. The Minister, I think, made a decision in December 2014. We learned about that decision in January 2015. So, we weren't fully in the loop on that."[44]

**91.** Eglurodd Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltu Sefydliadol wrth y Pwyllgor y gall CCAUC gadw 2 y cant o'i gronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn ac felly mae'r penderfyniad i drosglwyddo cronfeydd sy'n ymwneud â'r grant ffioedd dysgu yn uniongyrchol drwy'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi golygu bod gan CCAUC lai o hyblygrwydd ar ddiwedd y flwyddyn, oherwydd

> "Mae'n amlwg bod 2 y cant o budget llai yn rhoi lot llai o hyblygrwydd."

**92.** Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus i glywed mai dim ond ym mis Ionawr 2015 yr hysbyswyd CCAUC am y penderfyniad, ac erbyn yr adeg hon dywedodd y sefydliad ei fod ar gam hwyr yn ei gylch blynyddol[45] a'i fod bron â gorffen y cyfrifiadau cyllid ar gyfer 2016-17, ac felly bu'n rhaid iddo ddechrau eto. Er nad yw'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y penderfyniad polisi hwn, rydym yn pryderu ynghylch y broses gwneud penderfyniadau hon. Mae'n codi cwestiynau ynghylch y dull cyfathrebu ac ymgysylltu cyffredinol rhwng y ddau sefydliad hyn, a godwyd yn flaenorol yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2013 ar Gyllid Addysg Uwch.[46] Er mwyn sicrhau dull cynllunio ariannol effeithiol credwn y dylai sefydliadau gael gwybodaeth amserol a chywir ar gyfer gwneud penderfyniadau hyddysg. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y tystion wedi ymwneud â'r trafodaethau ynghylch newidiadau sy'n deillio o adolygiad Diamond[47] a Hazelkorn[48], sy'n effeithio'n sylweddol ar ddyfodol y sector.

## Staffio

**93.** Dengys yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon fod y sefydliad yn cyflogi 43 o staff cyfwerth ag amser llawn ar 31 Mawrth 2016.

### Data absenoldeb oherwydd salwch

**94.** Cafwyd cyfanswm o 342 o ddyddiau absenoldeb oherwydd salwch yn 2015-16.[49] Cynnydd yn y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch o 1.31% yn 2014-2015 i 2.84% yn 2015-2016. Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi bod hon yn gyfradd isel o hyd o gymharu â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus,

[44] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 211
[45] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 213
[46] **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru 2013 ar Gyllid Addysg Uwch**
[47] Adolygiad Diamond 2016
[48] Adolygiad Hazelkorn 2016
[49] Adroddiad Blynyddol 2015-16 tudalen 47

gydag Adroddiad Arolwg Blynyddol Rheoli Absenoldeb y CIPD yn 2014 yn nodi 4.1% o gyfradd absenoldeb ar gyfer sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus.

**95.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion a oedd cynnal a rheoli'r gyfradd absenoldeb hon yn her. Croesawodd y Pwyllgor y sicrwydd gan Nick Williams, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol, fod nifer o becynnau ar waith i reoli absenoldeb oherwydd salwch ymhlith staff yn cynnwys rhaglenni cymorth cyflogeion a rheoli straen.

### Dangosyddion Perfformiad

**96.** Mae Strategaeth Gorfforaethol CCAUC ar gyfer 2013-14 i 2015-16 yn gosod 17 targed. Gosodwyd y llinell sylfaen ar gyfer y targedau hyn yn 2011-12. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ymestyn Strategaeth Gorfforaethol CCAUC i 2016-17 a dywedodd CCAUC ei fod wedi rhoi "blwyddyn ychwanegol i gyflawni'r targedau, i bob pwrpas".[50] Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi bod y ddau darged canlynol yn annhebygol o gael eu cyflawni:

- Cadw myfyrwyr (T3, Rhan-amser); a
- Cyfrwng Cymraeg (T6 – 40 credyd).

**97.** Mae'r adroddiad blynyddol yn egluro bod modd cymharu nifer o dargedau CCAUC gyda pherfformiad y DU ac felly mae'n rhaid aros i'r data hwnnw fod ar gael cyn y gellid eu hasesu. Mae'r naratif yn yr adroddiad blynyddol yn datgan:

> "Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd ac i weithio gyda'r sector addysg uwch i annog perfformiadau gwell yn y meysydd polisi hyn, gan nodi bod newidiadau i'n pwerau ac i'n cyllid yn cyfyngu ar ein gallu i ddylanwadu ar y meysydd hyn."[51]

**98.** Pan ofynnwyd iddo pam nad oedd yn disgwyl cyflawni targedau tri a chwech, dywedodd y Prif Weithredwr:

> "We didn't set soft targets. So, we're challenging them. In the nature of setting challenging targets, you have to accept that sometimes they won't be met. I think, in respect of both of these areas, the targets were set some years ago in our last corporate strategy, and we're just on the cusp of rewriting our corporate strategy. So, we'll revisit these."[52]

**99.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull o osod targedau heriol gan CCAUC, oherwydd er mwyn cyflawni'r gwerth gorau posibl am arian mae angen i'r targedau fod mor uchelgeisiol â phosibl.

[50] ibid
[51] Adroddiad Blynyddol CCAUC 2015-16 tudalen 11
[52] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 268

# 05. Estyn

**100.** Ystyriodd y Pwyllgor adroddiad blynyddol a chyfrifon Estyn yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2016. Roedd y cyfrifon yn destun archwiliad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a llofnodwyd y farn archwilio ddiamod ar 13 Gorffennaf 2016. Mae Estyn yn annibynnol ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru o dan Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.[53]

**101.** Cenhadaeth a gweledigaeth Estyn yw:

> "cyflawni rhagoriaeth i bob dysgwr yng Nghymru trwy ddarparu gwasanaeth arolygu a chyngor annibynnol, o ansawdd uchel... (a) cael ein cydnabod trwy arbenigedd ein staff yn llais awdurdodol ar addysg a hyfforddiant yng Nghymru."[54]

**102.** Mae gan Estyn ddyletswydd statudol i gynnal arolygiadau o'r sector addysg a hyfforddiant. Mae'r sefydliad hefyd yn arolygu:

- Ysgolion meithrin a gynhelir neu a ariennir gan awdurdodau lleol;
- ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- colegau arbenigol annibynnol;
- dysgu cymunedol i oedolion;
- gwasanaethau addysg awdurdod lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- Cymraeg i oedolion;
- dysgu yn y gwaith; a
- dysgu yn y sector cyfiawnder.

**103.** Caiff Estyn ei arwain gan Brif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. O fis Medi 2017 ymlaen, disgwylir i drefniant arolygu Estyn newid. Mae hyn yn cyd-fynd â chynigion i Estyn gyfrannu'n fwy at y gwaith o ddatblygu'r cwricwlwm newydd. Yn ystod 2015-16 mae Estyn hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau i'r Fframwaith Arolygu Cyffredin.

## Rheolaeth Ariannol a Chyllid

**104.** Cafodd cyllideb Estyn ar gyfer 2015-16 ei gosod ar £11.664m, nododd y sefydliad arbedion o tua £1m, a chafwyd £10.673m o alldro gweithredol net ar gyfer 2015-16. Mae'r arbediad hwn yn cynnwys:

[53] Adran 104 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.
[54] Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Estyn

- (tua )100k o ostyngiad mewn costau gweinyddu a chostau rhedeg eraill;
- £294k o ddibrisiant nas defnyddiwyd;
- £100k o ostyngiad yng ngwariant y rhaglen; a
- £500k o danwariant staffio.

**105.** Holodd y Pwyllgor y tystion a oedd yr arbedion hyn wedi'u targedu. Dywedodd Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (y Prif Arolygydd):

> "The more difficult area to explain is the staffing; there was about £500,000 saved on staffing. I think the difficulty we have as an organisation is that we work to a one-year budget, and for a small organisation that's not part of Welsh Government but has all the constraints of a civil service department, which means we have no reserves and we can't raise money, it's very, very difficult for us to set long-term commitments, particularly on staffing."[55]

**106.** Holodd y Pwyllgor y tystion hefyd ynghylch y cyfathrebu â gafwyd gyda Llywodraeth Cymru ynghylch y toriadau posibl yn y gyllideb. Dywedodd Phil Sweeney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol Estyn:

> "There's an ongoing dialogue with the department that our funding lies in. It's currently within the local government main expenditure group, so we have discussions with finance officers in that directorate. It has been, over the last three or four years, 'How would you react to these scenarios: flatlined, 3 per cent, 5 per cent?' And it has been up to 20 per cent. So, what we do as a management team is we produce various scenarios at those budget levels and we discuss the implications of going to each of those scenarios with officials, particularly on the education side, and how we can protect the core service but what could go at the margins."[56]

**107.** Llongyfarchwyd Estyn gan y Pwyllgor ar yr arbedion a wnaed eleni a thros y 10 mlynedd diwethaf, lle y cafwyd gostyngiad yn y gyllideb o £15m i £11m. Rydym yn croesawu'r ymrwymiad gan Estyn i fabwysiadu dull pwyllog o gynllunio'r gyllideb, gan sicrhau bod gwasanaethau craidd yn cael eu cynnal ar yr un pryd.

## Dangosyddion Perfformiad

**108.** Mae Estyn yn cynhyrchu Cynllun Blynyddol bob blwyddyn sy'n nodi'r gweithgareddau craidd ar gyfer y flwyddyn honno er mwyn cyflawni ei amcanion strategol. Caiff cyflawniad yn erbyn y dangosyddion ei fonitro'n chwarterol neu'n dymhorol gan Fwrdd y Strategaeth, a chyhoeddir y canlyniadau ar-lein.[57] Cyflawnodd Estyn bob un o'r 19 o dargedau a osodwyd yn ystod 2015-16. Caiff yr amcanion a'r dangosyddion perfformiad eu grwpio o dan yr amcanion strategol a'r egwyddorion cyflawni a amlinellwyd yn flaenorol.

**109.** Ymhlith yr uchafbwyntiau ar gyfer 2015-16 mae:

---

[55] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 350
[56] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 357
[57] Cynllun Blynyddol Estyn 2015-16

– Cyflawni rhaglen lawn o arolygiadau statudol craidd;

– Cyhoeddi 14 o adroddiadau thematig;

– Cyhoeddi 40 o astudiaethau arfer gorau;

– Un o'r 3 sefydliad gwasanaeth sifil gorau (allan o 96) ar gyfer ymgysylltu â staff; a

– Gostyngiad o 2% mewn Costau Gweithredu Net.

**110.** Gan fod Estyn wedi cyflawni pob un o'r 19 o dargedau, gofynnodd y Pwyllgor a oedd y targedau'n ddigon cadarn i hyrwyddo gwelliant parhaus. Dywedodd y Prif Arolygydd:

> "Para 313 - We try our very best to come up with a set of performance indicators that does exactly what you suggest. So, you can probably see from our annual plan for this year that we have actually introduced two new performance indicators that we think add to that picture and make it a more robust set of performance indicators moving forward. You know, I'm very open to constructive suggestions on how we can improve on the performance indicators."

**111.** Croesawodd y Pwyllgor y ffaith nad yw Estyn yn amrywio'r dangosyddion gwirioneddol yn ormodol bob blwyddyn, ond yn hytrach yn eu haddasu i fod yn fwy uchelgeisiol, er mwyn gallu gwneud cymariaethau.

**112.** Nododd y Pwyllgor, o'r targedau a amlinellwyd, y byddai'r newid i'r Fframwaith Arolygu Cyffredin (CIF) yn golygu y byddai proses yr awdurdodau lleol o fonitro darparwyr dilynol yn dod i ben ac na fyddai unrhyw ddarparwyr yn cael eu gosod yn y categori hwn o fis Medi 2016 ymlaen.[58] Gofynnodd yr Aelodau am y rhesymeg a oedd wrth wraidd hyn. Eglurodd y Prif Weithredwr fod fframwaith ar gyfer cylch nesaf yr arolygiadau awdurdodau lleol yn cael ei ystyried, er bod hyn yn heriol oherwydd nad oedd Estyn yn gwybod pa bwerau a dyletswyddau a fydd gan yr awdurdodau lleol hynny yn y dyfodol.[59] Gofynnodd y Pwyllgor a oedd hyn wedi gadael unrhyw fylchau yn y fframwaith arolygu. Cadarnhaodd y Prif Arolygydd y byddai bwlch o ran arolygu awdurdodau lleol:

> "I am concerned, and that's why we are thinking of a temporary arrangement. We're currently thinking of taking a kind of case conference approach, where we will meet with all the stakeholders related to a particular authority and discuss a way forward with them."[60]

**113.** Mae hwn yn destun pryder i'r Pwyllgor, o ystyried bod rhai awdurdodau lleol yn destun mesurau arbennig yn dilyn y cylch diwethaf o arolygiadau, a'r posibilrwydd go iawn y bydd y diffyg arolygiad hwn yn arwain at ostwng safonau. Mae'r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i amlygu ei bryderon ynghylch y mater hwn, gan awgrymu bod canlyniad y trafodaethau hyn yn cael ei ystyried fel rhan o waith craffu'r Pwyllgor ar adroddiad blynyddol y Prif Arolygydd er mwyn sicrhau bod trefniant priodol yn cael ei roi ar waith yn brydlon.

---

[58] Newidiadau i drefniadau arolygu o Fedi 2017 - diweddariad
[59] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 324
[60] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 328

## Staffio

**114.** Cyflogir cyfanswm o 118 aelod o staff gan Estyn, sef gostyngiad o ddau aelod o staff ers 2014-15. Staffio yw maes gwariant mwyaf Estyn ac mae'n cyfateb i ychydig dros 70% o gyfanswm gwariant y sefydliad.

**115.** Ers 2011 mae Estyn wedi cynyddu nifer yr arolygwyr cymheiriaid o ychydig o dan 200 i ychydig o dan 1000. Mae'r adroddiad blynyddol yn disgrifio'r Arolygwyr Cymheiriaid fel a ganlyn:

> "Unigolion sydd â rôl reoli mewn ysgol neu ddarparwr, neu sydd â phrofiad addysgu neu hyfforddi yn y sector perthnasol, yw arolygwyr cymheiriaid. Maent yn aelodau llawn o dîm arolygu a chyfrannant at y gwaith arolygu ym mhob cwestiwn allweddol."[61]

**116.** Holodd y Pwyllgor ynghylch y rhesymeg dros y defnydd cynyddol o Arolygwyr Cymheiriaid. Eglurodd y tystion ei fod wedi deillio o ganlyniad i'r penderfyniad i gynnal arolygiadau mewnol, a bod y rhaglen arolygwyr cymheiriaid yn rhywbeth y mae gan yr arolygiaethau eraill ddiddordeb ynddo. Dywedodd y Prif Arolygydd:

> "So, there are lots of advantages to that system. Clearly there's an advantage to Estyn: we get very credible people who are part of the chalkface currently. They bring their expertise and knowledge and we benefit from that, but we also feel that they benefit from being part of inspections as well. The skills that they learn from being an inspector, they take back then to their providers when they finish that inspection, and the training that they get from us. There were a few quotes within the annual report saying how much they actually appreciated that."[62]

**117.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r fenter hon oherwydd ymddengys ei bod yn ychwanegu gwerth at y gyfundrefn arolygu, ac yn creu capasiti yn y system addysg.

**118.** Mae Estyn ymhlith y 5% uchaf o sefydliadau sy'n cymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil a 2015 oedd ei flwyddyn orau hyd yma, ac roedd yr Aelodau o'r farn ei fod yn berfformiad canmoladwy a oedd yn haeddu clod. Fodd bynnag, o fewn y naw maen prawf a ystyriwyd, dangosodd pedwar ddirywiad ers yr arolwg blaenorol. Gofynnodd y Pwyllgor i Estyn sut yr oedd yn cynnal ei lefelau perfformiad uchel. Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod yn credu bod hyn oherwydd bod Estyn yn cymryd y mater o ddifrif, gan ychwanegu:

> "So, a lot of what we do is to continue with the good work we're currently doing, in terms of, in particular, our training and development programme. We are always working with our staff, with our staff engagement group, to try and get any ideas, extra new ideas, that we can feed into that training and development programme. Similarly, on health issues, we're constantly looking—we're very open—for any constructive suggestions. One new thing we're doing is a leadership programme for our managers. We're working with

[61] Adroddiad Blynyddol Estyn, 2015-16
[62] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 384

Academi Wales to develop that currently. So, those are some of the things we're doing."[63]

**119.** Nododd y Pwyllgor hefyd mai 3.6% oedd cyfradd absenoldeb oherwydd salwch Estyn a thrafodwyd gyda'r tystion a oedd agweddau ar eu harfer rheoli absenoldeb oherwydd salwch y gellid eu rhannu gyda sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weithredwr:

> "We identified, I think, that a lot of the sickness absence we have is increasingly long term, and increasingly to do with mental health. So, we've put a lot of effort into training in those areas—not so much stress within the workplace, but stress at home, bereavement, caring, that sort of thing. So, we've done a lot on the employee assistance programme, stress risk assessments and training in the workplace with Mind Cymru. There's a lot of training we've done. So, it's about analysing the causes of the sickness absence, and then trying to address those specific issues."[64]

**120.** Ychwanegodd Phil Sweeney:

> "… one very quick best practice tip, it's to try and remove the barriers to returning to work. So, one of the things that we do is actively promote the opportunity for people to work at home. You know, if they break a bone, we make sure the technology is there to support that type of working, rather than people being signed off. So, it's trying to remove the barriers to people returning to work, even when they're not fully fit."[65]

**121.** Rhoddodd y Pwyllgor ganmoliaeth i Estyn am ei ganlyniadau cadarnhaol yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Byddem yn awgrymu bod Estyn yn cael ei ystyried gan sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus wrth edrych am enghreifftiau o arfer da.

## Asedau ac Eiddo

**122.** Dangosodd yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon fod Estyn wedi adnewyddu ei brydles ar gyfer ei swyddfeydd yn Llys Angor. Dyma leoliad tîm rheoli Estyn a'r staff gwasanaethau corfforaethol. Mae gan arolygwyr Estyn drefniadau i weithio o gartref. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cost yr adeilad hwn yn debygol o gynyddu yn y dyfodol. Dywedodd Phil Sweeney:

> "The figure is actually a very competitive market rate. Just to give you a little bit of context, we're now paying a third less on the Anchor Court lease per square foot, which is the important thing, than the original lease. …So, we don't expect that to go down for the next four years, the duration of the lease. We do have a midlease break clause, which gives us an opportunity to go back to the landlord and maybe squeeze a bit more, but it also gives us an opportunity—if lowercost accommodation comes up and if there is a property available through the Government estate that we could share—and it gives us that flexibility, which is what we always insist on when we renew the lease."[66]

---

[63] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 390
[64] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 393
[65] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 395
[66] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 399

**123.** Cred y Pwyllgor fod hwn yn ddull da o reoli eiddo, ond byddai'n annog Estyn i barhau i ymchwilio i'r opsiwn o rannu swyddfa gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol er mwyn gweld a fyddai'n fwy costeffeithiol.

## Digidol

**124.** Nododd Estyn strategaeth ddigidol yn ei adroddiad blynyddol a oedd yn cynnwys addasiadau i'r wefan er mwyn cyflwyno adroddiadau thematig a dull hawdd o chwilio, a hyrwyddo pob adroddiad ac astudiaeth achos arfer gorau drwy twitter a chyfryngau cymdeithasol yn ogystal â newyddlenni. Mae'r adroddiad yn datgan:

> "Roedd hyn yn cynnwys ffilm, a gyflawnodd lawer iawn o gyhoeddusrwydd cadarnhaol ac a greodd ddadlau a thrafod yn y cyfryngau. Cyfrannodd y defnydd o Twitter yn sylweddol at ddadlau a thrafod cyhoeddus, ac anogodd sylwadau gan gynulleidfa eang, gan gynnwys gweithwyr addysg proffesiynol, undebau athrawon, consortia ac aelodau'r cyhoedd."[67]

**125.** Holodd y Pwyllgor ynghylch cost y strategaeth ddigidol ac eglurodd y tystion mai'r gost fwyaf oedd £50,000 ar adnewyddu'r wefan, ond ar wahân i hynny dim ond amser y staff a ddefnyddiwyd. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dull hwn o hyrwyddo, gan ei fod yn cynyddu tryloywder ac yn cyflawni canlyniadau da am fuddsoddiad rhesymol.

[67] Adroddiad Blynyddol Estyn

# 06. Cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru

**126.** Mae Llywodraeth Cymru yn un o ddau sefydliad sy'n cael eu gwahodd yn flynyddol (ynghyd â Chomisiwn y Cynulliad) i fod yn destun craffu gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a dyma'r drydedd flwyddyn i'r Pwyllgor graffu ar gyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyfrifon Cyfunol yn cynnwys tri adroddiad:

- Adroddiad Blynyddol;
- Adroddiad Atebolrwydd; ac
- Adroddiad Ariannol.

**127.** Craffodd y Pwyllgor ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2015-16 Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2016. Roedd cyfrifon 2015-16 yn destun archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru. Archwiliodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y cyfrifon a darparodd farn archwilio wedi'i llofnodi (tudalen 48 i 50), heb unrhyw sylwadau. O fewn ei farn ar y cyfrifon dywedodd Archwilydd Cyffredinol Cymru fod y cyfrifon "yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa Swyddfa Archwilio Cymru ar 31 Mawrth 2016"; "wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r cyfarwyddiadau gan Drysorlys EM" a "bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru".[68]

**128.** Ar ôl craffu ar gyfrifon cyfunol 2015-16 Llywodraeth Cymru gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol bum argymhelliad a oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â Llywodraeth Cymru ynghylch:

- hygyrchedd a thryloywder cyfrifon;
- cynaliadwyedd;
- caffael a Gwerth am Arian yn ymwneud â ffrwd gwaith 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol';
- Rheoli Grantiau.

## Tryloywder a hygyrchedd cyfrifon cyfunol

**129.** Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol y dylai Llywodraeth Cymru symleiddio ei chyfrifon cyfunol a chynnwys dolenni i'r ddogfennaeth ar-lein i'w gwneud yn haws i'r cyhoedd ddilyn yr arian, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn "parhau i ymrwymo i lunio cyfrifon symlach a mwy cryno yn unol â'r canllawiau cyfrifyddu newydd".[69]

**130.** Nododd y Pwyllgor fod cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru yn fwy darllenadwy a dealladwy ar y cyfan ond holodd ynghylch absenoldeb dolenni i ddangos llif cyllid o Lywodraeth Cymru i sefydliadau eraill y Gwasanaeth Cyhoeddus, gan fod y Pwyllgor yn ystyried bod y cyfrifon cyfunol yn cynnwys gwybodaeth gyfyngedig. Cadarnhaodd Syr Derek Jones, yr Ysgrifennydd Parhaol, pan fyddent yn cael eu cyhoeddi ar-lein y byddent yn cynnwys atodiad gydag e-ddolenni i gyrfion cyrff cyhoeddus eraill, a gwblhawyd yn dilyn sesiwn graffu'r Pwyllgor.[70]

**131.** Er gwaethaf y cynnydd da a wnaed i wella fformat y cyfrifon cyfunol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod meysydd yr oedd angen gwella ymhellach arnynt o hyd. Er enghraifft, mae'r crynodeb o alldro

[68] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16
[69] Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2015-16, Chwefror 2016
[70] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16, Atodiad C

adnoddau yn datgan, mewn perthynas â'r tanwariant, bod hyn wedi codi'n bennaf oherwydd problem gysoni rhwng Ambit a chyllidebau cyfunol. Nid yw'r datganiad hwn yn golygu llawer heb eglurhad ac esboniad pellach, yn enwedig i'r rhai heb wybodaeth ariannol sylweddol. Pan drafododd y Pwyllgor hyn gyda Llywodraeth Cymru, cydnabu'r swyddogion fod mwy o waith i'w wneud o hyd i wneud rhai o'r esboniadau'n gliriach.[71]

**132.** Roedd enghraifft arall a ddarparwyd gan y Pwyllgor hefyd yn y crynodeb o alldro adnoddau, a'r tabl a oedd yn amlinellu'r alldro (tudalen 46 o'r cyfrifon cyfunol). Mae hwn yn dabl lefel uchel iawn, ac er ei fod yn cydymffurfio â gofynion y trysorlys, roedd y Pwyllgor yn credu nad oedd y prinder gwybodaeth hwn yn ddefnyddiol wrth geisio cyfateb alldro ag unrhyw allbynnau. Ymrwymodd yr Ysgrifennydd Parhaol i ystyried tabl ychwanegol yn y cyfrifon cyfunol er mwyn cymharu gwariant yn erbyn y gyllideb

**133.** Cred y Pwyllgor, o ran cysylltu gwariant ag adrannau, fod y model a ddefnyddir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer dangos gwariant adrannol yn enghraifft dda er mwyn egluro meysydd gwariant mawr. Er enghraifft, yn yr arolwg adrannol ar gyfer yr adran drafnidiaeth, mae Swyddfa Archwilio Cymru yn defnyddio diagram syml sy'n mapio'r prif feysydd o fewn yr adran drafnidiaeth a faint o arian a gaiff ei wario ym mhob maes.[72]

**Argymhelliad 10.** Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus ac adeiladu ar y gwaith cadarnhaol hyd yma, mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal gwerthusiad o'r wybodaeth a geir o fewn y cyfrifon cyfunol er mwyn sicrhau ei bod yn dweud wrth bobl yr hyn sydd angen iddynt ei wybod a'r hyn y maent am ei wybod. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y gwariant yn erbyn y gyllideb ym mhob un o'r prif grwpiau gwariant.

## Rhaglen gwella busnes Llywodraeth Cymru

**134.** "Paratoi ar gyfer y Dyfodol" yw cynllun gwella busnes Llywodraeth Cymru. Prif nod y rhaglen yw nodi sut y gall y sefydliad ddiwallu anghenion Gweinidogion Cymru yn y ffordd orau posibl. Mae'r rhaglen yn ystyried ffyrdd y gall y sefydliad fod yn ystwyth, yn hyblyg, yn alluog ac yn fforddiadwy. Mae'r rhaglen yn cynnwys pedair ffrwd waith:

- Arweinyddiaeth a Gallu – canolbwyntio ar ddatblygu gallu arwain, y sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar draws y sefydliad;
- Gwella Busnes a Gwasanaethau Corfforaethol Cyffredin – datblygu modelau a phrosesau effeithlon ar gyfer darparu gwasanaethau cyffredin ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd, archwilir effeithiolrwydd arferion grantiau, gan adeiladu ar waith y Prosiect Gwella Grantiau;
- Gweithio Hyblyg a Chynhyrchiol - Gweithredu arferion gweithio ystwyth ar gyfer staff. Caiff ei dreialu yn swyddfa Merthyr ar hyn o bryd. Dechreuodd yng Ngorffennaf 2016 a bydd yn para 6 mis; a
- Llywodraethu Masnachol - Yn edrych ar ffyrdd newydd o gaffael a thalu, gan atgyfnerthu dulliau rheoli contractau. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn gwario hanner biliwn o bunnoedd yn flynyddol ar nwyddau a gwasanaethau. Nododd y ffrwd waith dros £7m o arbedion yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ddiwethaf.

---

[71] Cofnod y Trafodion, 26 Medi 2016, paragraff 288-294
[72] Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Arolwg Adrannol 2015-16, Yr Adran Drafnidiaeth

**135.** Archwiliodd y Pwyllgor gyda Llywodraeth Cymru beth oedd prif lwyddiannau ac uchafbwyntiau'r Rhaglen. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod y cam cyntaf yn ymwneud ag ailstrwythuro uwch staff, a bod yr ail gam fel a ganlyn:

> "Phase 2 was more about what you might call common corporate services rationalisation, and flexible working. So, I was able to order a change in the telephony and ICT system that cost us less, I think—about £1.5 million saving."[73]

**136.** Fel rhan o hyn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod peilot wedi'i gynnal o'r trefniadau TGCh a'r trefniadau gwaith newydd yn swyddfa Merthyr Tudful, a fyddai'n cael ei adolygu ar ddiwedd 2016. Fodd bynnag, pan ofynnodd y Pwyllgor beth fyddai'r mesur llwyddiant ar gyfer y peilot hwn, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor:

> "…I haven't set any productivity targets. I think part of the pilot is to see whether we can establish productivity measures for this kind of work. And, even then, I don't think we'll be able to escape some measure just of judgment. I don't think we can always put a hard number on changes and ways of working like that."[74]

**137.** Mae'r Pwyllgor yn poeni ei bod yn ymddangos fel pe bai'r peilot hwn wedi'i gynnal heb unrhyw dargedau clir. Er mwyn mesur llwyddiant y cynllun yn effeithiol, ymddengys i'r Pwyllgor y dylai rhai canlyniadau fod wedi'u gosod ar y cychwyn, fel arall bydd yn anodd gwerthuso'r llwyddiant. Er mwyn osgoi hyn, mae'n well gosod canlyniadau clir, ar ddechrau cynlluniau, a byddai'r Pwyllgor yn disgwyl gweld hyn gan Lywodraeth Cymru.

## Twyll

**138.** Ar ddechrau 2016 cafodd dau Gyfarwyddwr o gwmni bysiau yng Ngogledd Cymru eu dyfarnu'n euog o hawlio tua £900,000 o daliadau tocynnau teithio rhatach drwy dwyll. Caiff y taliadau hyn eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ond fe'u gweinyddir gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Roedd y twyll yn cynnwys hawlio cronfeydd gan Gyngor Gwynedd yn seiliedig ar ffigurau ffug o ran nifer y teithwyr tocynnau teithio rhatach a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth. Ar ôl datgelu'r troseddau cafodd y gwasnaeth bysiau ei ddirwyn i ben a chollwyd 84 o swyddi.

**139.** Mae'r cyfrifon cyfunol yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i wella'r gallu i fynd i'r afael â thwyll (tudalen 26) a bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i'w helpu yn eu dyletswydd i ddatgelu achosion o dwyll. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder ynghylch y twyll a nododd fod pryderon y gallai hwn fod yn faes twyll posibl am lawer o flynyddoedd, a gofynnodd a oedd Llywodraeth Cymru yn teimlo bod hyn o dan reolaeth erbyn hyn. Gan siarad ar ran y Llywodraeth, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn credu bod pethau dan reolaeth nawr a bod y Llywdoraeth yn parhau i wiethio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau gwelliannau i systemau.[75]

**140.** Cred y Pwyllgor y dylid bod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i'r ffordd y cafodd y polisi hwn ei weinyddu ar y cychwyn, a allai fod wedi atal y cyfryw achosion o dwyll. At hynny, mae gennym bryderon sylweddol nad oedd digon o gapasiti o bosibl o fewn y Llywodraeth i nodi'r tueddiadau twyllodrus a oedd yn deillio o'r cynllun hwn. Byddem yn annog y rhai o fewn y gwasanaeth sifil sy'n

[73] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 143
[74] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 154
[75] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 77 a 75

gyfrifol am bolisïau sy'n cael eu gweinyddu y tu allan i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod digon o ystyriaeth yn cael ei rhoi i achosion posibl o dwyll, a bod Llywodraeth Cymru'n sicrhau bod digon o allu o fewn adrannau i fonitro'r cyfryw gynlluniau er mwyn osgoi twyll o'r fath yn y dyfodol.

**Argymhelliad 11.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei threfniadau goruchwylio ar gyfer cynlluniau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ond sy'n cael eu gweinyddu gan sefydliadau allanol, i sicrhau bod camau diogelu ar waith i atal twill.

**Argymhelliad 12.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad cyn craffu ar gyfrifon y flwyddyn nesaf ar fanylion y trefniadau a roddwyd ar waith i gryfhau'r system o ran gweinyddu taliadau teithio rhatach.

## Caffael

**141.** Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei threfniadau caffael fel rhan o'i rhaglen 'Paratoi ar gyfer y Dyfodol' ac mae hyn yn cynnwys cryfhau sgiliau rheoli contractau. Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn nodi bod y ffrwd waith hon wedi sicrhau dros £7m o arbedion caffael yn ystod hanner cyntaf 2015. Mae'r adroddiad yn nodi hefyd bod rhai arferion caffael gwael, a bod camau'n cael eu cymryd i ailasesu'r awdurdodau dirprwyedig sy'n gwneud y penderfyniadau caffael. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am y Gwerth am Arian a gyflawnwyd hyd yma a oedd yn deillio o newidiadau i arferion caffael, a nododd fod gwerth tua £15 million neu £20 miliwn o welliannau.[76]

**142.** Mae caffael yn offeryn pwysig i sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian. Mae hefyd yn dylanwadu'n sylweddol ar bolisïau Llywodraeth Cymru i gynyddu caffael o Gymru. Eglurodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn anodd oherwydd nad yw lleihau costau yn unig yn darparu'r canlyniad gorau posibl o reidrwydd:

> "For example, you can often get a better unit cost if you aggregate procurement to a larger scale, but then that can make it more difficult for smaller businesses to compete for the business, or it might make it more likely that we would lose the business from the Welsh economy to a larger company headquartered outside. So, we can't just drive down cost, but cost is incredibly important."[77]

**143.** Holodd y Pwyllgor y tystion ymellach a oedd capasiti o fewn Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Leol i gaffael yn ddoeth, yn hytrach na dim ond caffael yn rhad. Cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymdrechion i ategu hyn o fewn y tîm caffael a bod y Pennaeth Caffael wedi cael ei recriwtio'n allanol, a'i fod yn adrodd yn uniongyrchol i'r Dirprwy Ysgrifennydd Parhaol: "We are working quite hard to improve professionalisation and training".[78] Mae'r Pwyllgor yn nodi hefyd bod Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar Gaffael Cyhoeddus, a fydd yn rhoi cyfle pellach i ystyried y materion hyn a materion caffael ehangach.

**144.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion sut yr oeddent yn cysylltu'r nod polisi o gaffael mwy o fewn Cymru, a sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian, a dywedodd y tystion:

---

[76] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 35
[77] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 99
[78] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 100

> "… if we have all-Wales frameworks, as we are increasingly now for the larger part of our spend, then we can make sure that those frameworks are tailored to allow smaller businesses to compete, to capture the work in Wales. I wish I had a number to hand, but we've actually been capturing a lot more of Welsh Government and public sector spend in Wales. …When you look at the scale of public sector expenditure in Wales—billions every year—just capturing a higher percentage of that for Welsh businesses, and that means capturing it for relatively smaller businesses in many cases, is incredibly valuable to the economy. So, I think we're making progress. I think the national procurement service will continue to develop that proposition through its frameworks, but we'll have to keep at it."[79]

**145.** Cred y Pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol cynnwys dangosydd o fewn cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru sy'n dangos canran y caffael gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael ei ddyfarnu i gwmnïau o Gymru.

**Argymhelliad 13.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod cyfrifon Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth am ganran y caffael gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael ei ddyfarnu i gwmnïau o Gymru.

**146.** Mae defnydd Llywodraeth Cymru o gardiau credyd corfforaethol ar gyfer caffael yn fater a godwyd yn eang gyda'r Llywodraeth a rhoddwyd sylw iddo yn y cyfryngau. Yn dilyn y gwariant twyllodrus a gofnodwyd yn ystod 2015-16, gofynnodd y Pwyllgor i'r tystion pa fesurau a gymerwyd i sicrhau defnydd mwy tryloyw o'r cardiau hyn. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru ei bod bellach yn cyhoeddi pob un o'r trafodion a wneir ar y cardiau hyn.

**147.** Dangosodd y cyfrifon cyfunol ar gyfer 2015-16 fod Llywodraeth Cymru wedi gwneud taliad di-fudd o £1.25m, y rhoddodd yr Ysgrifennydd Parhaol esboniad ohono isod:

> "…a large procurement, decided on some very narrow margins in favour of one tenderer, and so the contract was awarded. A disappointed tenderer challenged the judgment, the Welsh Government initially defended the allocation but subsequently received legal advice that the cost of continuing to defend the action taken with the prospects of success were such that it would be better to enter formal arbitration with the claimant, which was done. This is a compensation payment under a court order, following the arbitration."[80]

**148.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor, yn ei farn ef, bod modd osgoi hynny. Yn rhannol, dull gwael o gadw cofnodion oedd i gyfrif am hyn, ynghyd â threfniadau gweinyddol naif ac annoeth.[81] Mae gohebiaeth ddilynol gan Lywodraeth Cymru ac adroddiadau yn y wasg wedi nodi bod y taliad hwn yn ymwneud â chaffael contract cyflenwr dodrefn.[82] Mae'r Pwyllgor yn poeni bod y cyfryw daliad di-fudd wedi cael ei wneud, mewn sefyllfa y gellid bod wedi'i hosgoi i bob diben. Byddwn yn disgwyl i Lywodraeth Cymru ein hysbysu'n rheolaidd o ddatblygiadau yn y maes hwn, a disgwyliwn dderbyn sicrwydd bod y weithdrefn gaffael wedi'i thynhau o ganlyniad i'r sesiwn craffu ar gyfrifon 2016-17 y flwyddyn nesaf.

---

[79] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 123
[80] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 331
[81] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 332
[82] PAC(5)-11-16, PTN3, 28 Tachwedd 2016

**149.** Mae'r Pwyllgor yn poeni bod gweithdrefnau caffael Llywodraeth Cymru wedi methu ag atal taliad di-fudd sylweddol o £1.25m rhag cael ei wneud, yr oedd Llywodraeth Cymru ei hun o'r farn y gellid bod wedi ei osgoi. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru ddiweddaru'r Pwyllgor ynghylch sut y mae'n ymdrin â'r mater hwn a'r mesurau a roddwyd ar waith i gryfhau ei phrosesau caffael.

**150.** Sylwodd y Pwyllgor yn fwy cyffredinol fod Llywodraeth Cymru ond wedi ymateb i 85% o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth o fewn y terfynau amser statudol. Er bod hyn yn unol â tharged y Comisiynydd Gwybodaeth, ymddengys yn isel o ran tryloywder, yn enwedig gan fod Llywodraeth y DU yn gweithio ar sail targed o 90%.[83] O ganlyniad, bydd y Pwyllgor yn gwylio hyn yn ofalus, oherwydd hoffai weld y lefelau tryloywder uchaf posibl.

## Staffio

### Atebolrwydd o fewn y Strwythur Uwch Reoli

**151.** Yn ystod 2015, cafodd strwythur rheoli Llywodraeth Cymru ei symleiddio'n bedwar grŵp (Swyddfa'r Prif Weinidog a'r Cabinet; Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus; Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; a'r Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol); a chafodd y strwythur blaenorol o chwe Chyfarwyddwr Cyffredinol ei ddisodli gan ddau Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru. Mae Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru yn nodi bod hyn yn:

> "more economical, provides clearer direction and enables more collaborative working on Government priorities."[84]

**152.** Fel rhan o'r gwaith ailstrwythuro hwn cyflwynodd yr Ysgrifennydd Parhaol fframwaith rheoli cyffredin i'r holl grwpiau weithredu o'i fewn, a ddisodlodd y fframwaith rheoli ar gyfer adrannau unigol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod yn fwy cadarn ac y bydd yn rhoi gwell siawns o lawer iddo sicrhau gweinyddiaeth o ansawdd da.[85] Cadarnhaodd hefyd fod hyn yn destun adolygiad parhaus.

**153.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd digon o atebolrwydd a goruchwyliaeth o ran y broses o ddarparu polisïau ym mhob maes o ystyried y strwythur newydd. Dywedodd:

> "I thought, potentially, the model could be more effective for Government in that the more vertical divisions there are in an organisation, the more difficult it's likely to be to develop a whole-of-Government proposition in terms of delivery."[86]

**154.** Nid oedd y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi gan yr ateb a roddwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol a byddai'n annog yr Ysgrifennydd Parhaol nesaf i gynnal gwerthusiad llawn o'r ailstrwythuro er mwyn sicrhau bod dull digonol o oruchwylio'r polisïau a ddarperir a bod y fframwaith sicrwydd yn addas at y diben.

**Argymhelliad 14.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Ysgrifennydd Parhaol nesaf yn ystyried a yw'r strwythur uwch reoli a'r fframwaith sicrwydd presennol yn ddigon cadarn yn enwedig o ran atebolrwydd a goruchwylio'r broses o ddarparu polisïau.

83 Bwletin Ystadegau Rhyddid Gwybodaeth
84 Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2015-16, tudalen 13
85 Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 39
86 Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 133

### Absenoldeb oherwydd salwch

**155.** Roedd y gyfradd absenoldeb oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-16 yn cyfateb i 8.1 diwrnod gwaith ar gyfartaledd. Mae cyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru yn datgan ei bod wedi cyflwyno canllawiau newydd a chymorth i annog pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn gynharach, sydd wedi helpu i gadw'r ffigur hwn yn sefydlog. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod wedi sefydlu Tasglu Gorchwyl a Gorffen i edrych ar faterion yn ymwneud â salwch a sut y gellir gwella'r ffigurau hyn. Byddem yn awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i elfennau o arfer da gan sefydliadau eraill yn yr adolygiad hwn.

**Argymhelliad 15.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Tasglu Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru yn gwneud defnydd o enghreifftiau o arferion gorau ar draws y sector cyhoeddus i leihau lefelau absenoldeb oherwydd salwch.

### Rheoli Perfformiad

**156.** Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru ynghylch cadernid ei system rheoli perfformiad. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol nad oedd yn credu hynny:

> "….not satisfied that the performance management system was robust enough, the number of staff underperforming seemed to be a rather small percentage given the size of the organisation."[87]

**157.** Nid oedd y Pwyllgor wedi'i argyhoeddi y byddai Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â thanberfformiad yn y dyfodol, oherwydd prin oedd y dystiolaeth o gamau gweithredu'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

**158.** Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon o ran data salwch a rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru. Roedd yn ymddangos fel pe bai'n derbyn nad oedd modd osgoi rhywfaint o berfformiad gwael nad oedd y Pwyllgor yn disgwyl ei weld gan gyflogwr a ddylai fod yn esiampl yng Nghymru. O ystyried nifer y staff a gyflogir gan y Gwasanaeth Sifil yng Nghymru, a phwysigrwydd morâl staff yn y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddiannus, mae'r Pwyllgor yn annog yr Ysgrifennydd Parhaol nesaf i ystyried y materion staffio hyn fel prif flaenoriaeth, a byddwn yn ailedrych ar y materion hyn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 16.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn monitro perfformiad gwael a'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'r materion hyn er mwyn sicrhau bod y broses o reoli perfformiad yn cael ei rheoli'n gadarn.

## Gofynion Statudol - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a safonau'r Gymraeg

**159.** Ym mis Ebrill 2016, daeth gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[88] a safonau newydd y Gymraeg[89] i rym. Roedd y rhain yn ddau ddarn sylweddol o ddeddfwriaeth gan y Pedwerydd Cynulliad sy'n gosod gofynion sylweddol ar y gwasanaeth cyhoeddus ehangach i newid eu harferion gwaith.

**160.** Holodd y Pwyllgor Lywodraeth Cymru ynghylch ei dull o gyflawni'r gofynion statudol pwysig hyn ac a oedd yn hyderus ei bod yn eu cyflawni. Mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

---

[87] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 230
[88] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
[89] Safonau'r Gymraeg 2016

Dyfodol 2015, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei fod yn sefyllfa eithaf heriol. Eglurodd y bu adolygiad mewnol i geisio sefydlu a oedd digon wedi cael ei wneud i gyflawni'r gofynion. Ar gyfer y ddau gynllun, eglurodd y bu llawer o gyfathrebu mewnol i geisio codi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> "If you're going to ask me, 'Is it enough?' or 'Is it going to work?', I don't know for sure. Actually, the auditor general will be auditing us and, of course, the commissioner will look to the Welsh Government, I imagine, to try and be an exemplar in this field. I would absolutely love to be able to say that I know the Welsh Government civil service will be exemplary, but it's early days."[90]

**161.** O ystyried y gofynion y mae'r ddeddfwriaeth hon yn eu rhoi ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, mae'r Pwyllgor yn disgwyl i Lywodraeth Cymru fod yn hyderus yn ei dull o weinyddu'r ddeddfwriaeth ac i ddangos esiampl. Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y mater hwn yn ystod y broses o graffu ar gyfrifon cyfunol 2016-17 er mwyn monitro ac adolygu sut y mae gofynion y ddeddfwriaeth hon yn cael eu cyflawni.

## Casgliad

**162.** Roedd gan y Pwyllgor nifer o bryderon yn deillio o'i sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru ac amlygwyd nifer o feysydd y bwriadwn ailedrych arnynt yn ystod ein proses o graffu ar ei Chyfrifon Cyfunol ar gyfer 2016-17. Eir i'r afael â rhai o'r materion hyn drwy waith arall y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn i ddod ond byddwn yn edrych am ymatebion mwy cadarn a digonol y flwyddyn nesaf mewn perthynas â'r materion canlynol:

- Absenoldeb oherwydd salwch;
- Rheoli perfformiad;
- Darparu gofynion statudol craidd; ac
- Atal twill.

[90] Cofnod y Trafodion, 3 Hydref 2016, paragraff 191

# Atodiod - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn llawn yn: http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15845

| **Dyddiad** | **Enw/Sefydiad** |
|---|---|
| 19 Medi 2016 | Suzy Davies AC, Comisiynydd y Cynulliad<br>Claire Clancy, Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Nia Morgan, Cynulliad Cenedlaethol Cymru |
| 26 Medi 2016 | Richard Spear, Gyrfa Cymru<br>Nikki Lawrence, Gyrfa Cymru<br><br>David Blaney, CCAUC<br>Bethan Owen, CCAUC<br>Nick Williams, CCAUC<br><br>Meilyr Rowlands, Estyn<br>Phil Sweeney, Estyn |
| 3 Hydref 2016 | Sir Derek Jones, Llywodraeth Cymru<br>Gawain Evans, Llywodraeth Cymru<br>Peter Kennedy, Llywodraeth Cymru |